

Llais Osgwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 559 · Rhagfyr 2024 · 70c

Dathlu doniau'r dyffryn!

Dros ddwy sesiwn lawn ac amrywiol ar benwythnos ym mis Tachwedd, gwelwyd y gorau o ddoniau diwylliannol Dyffryn Ogwen yn canu, llefaru, llenyddia a pherfformio i safon arbennig. Dyma dystio i enw da Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen fel un o brif eisteddfodau lleol Cymru, sy'n llwyddo'n flynyddol i ennyn diddordeb cystadleuwyr o bell ac agos ac o bob oed.

Mae'r nifer o gystadleuwyr lleol ifanc a ddaeth i frig y categorïau amrywiol yn tystio ymhellach i'r gwaith gwych sy'n digwydd yn ysgolion ein dyffryn. Mae mentrau diwylliannol megis Clwb Drama Crawia a Chôr y Penrhyn yn gyfleoedd pellach i drigolion y fro fynegi eu doniau creadigol dan arweiniaid ymarferwyr o safon genedlaethol, a hynny mewn gofod perfformio sydd gyda'r gorau yng Nghymru. Mae Neuadd Ogwen, gyda'i rhaglen gelfyddydol eclecstig a'i chyfleusterau aml-bwrpas, yn llwyddo i roi profiadau diwylliannol amrywiol a chyson i drigolion y fro, yn hen ac ifanc.

Rydym yn ffodus o gael y fath gyfleoedd ar ein stepen drws ac yn gwerthfawrogi ymdrechion athrawon, swyddogion a gwirfoddolwyr i gynnal diwylliant Dyffryn Ogwen.

I weld rhestrau canlyniadau Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen 2024 a rhagor o luniau'r penwythnos, ewch i dudalen ewch i dudalennau 9-11.

Nadolig 2024

Â phryder yn ein herwau, daw o'n cred
Ein cri mewn gweddïau
I fyd sy'n llawn gofidiau
Gael Cariad yn had i'w hau.
Dilwyn Owen



Llefaru Derbyn

1af – Elgan Dafydd.
Cydradd 2il – Seren Honeyset a Nansi Doyle.
Cydradd 3ydd – Noa Ellis Roberts, Anna Roberts ac Ela Bartley.
(I gyd o Ysgol Llanllechid)

Llefaru Blwyddyn 1

1af – Eos Huws, Ysgol Llanllechid.
2il – Noa Jones, Ysgol Llanllechid.
Cydradd 3ydd – Enlli Medi a Begw Grug, Ysgol Abercaseg.

Unawd Alaw Werin Blwyddyn 6 ac iau

1af – Gruffudd Iwan, Caernarfon.
2il – Elsi Allsup, Ysgol Llanllechid.
3ydd – Mali Non, Ysgol Penybryn.



YN Y
RHIFYN
HWN:



Natur o'n
Cwmpas



Ysgoloriaeth
i Gwion



Llwyddiant
i Isaac

Llais Ogwan

Rhif 559
Rhagfyr 2024

Panel Golygyddol

Ieuan Wyn

(Ffôn 600297)

ieuanwyn01@gmail.com

Lowri Roberts

(Ffôn 07815 093955)

l.roberts11@btinternet.com

Neville Hughes

(Ffôn 600853)

nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan

(Ffôn 602440)

dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard

(Ffôn 07402 373444)

trystanrp1@gmail.com

Rhodri Llŷr Evans

(Ffôn 07713 865452)

Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Owain Evans

(Ffôn 07588 636259)

owain.evans1@gmail.com

Carwyn Meredydd

(Ffôn 07867 536102)

carwynian@hotmail.com

Rhys Llwyd

(Ffôn 01248 601606) rml42@live.co.uk

Catrin Wager

(Ffôn 07366 418318)

catrinwager@yahoo.co.uk

Fflur Roberts

(07767 473209)

fflur_roberts@hotmail.com

Swyddogion

CADEIRYDD

Dewi A Morgan, Park Villa,

Lôn Newydd Coetmor,

Bethesda, Gwynedd

LL57 3DT (Ffôn 602440)

dewimorgan@live.co.uk

TREFNYDD HYSBYSEBION

Neville Hughes, 14 Pant,

Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)

nev_hughes@btinternet.com

YSGRIFENNYDD

Gareth Llwyd, Talgarnedd,

3 Sgwâr Buddug, Bethesda

LL57 3AH (Ffôn 601415)

garethllwyd197@btinternet.com

TRYSORYDD:

Paul Rowlinson, Crud yr Awel,

Lôn Newydd, Coetmor,

Bethesda LL57 3DT

(Ffôn 01248 605365 /

07949 034967)

PaulJRowlinson@outlook.com

Y Llais drwy'r post:

Owen G Jones, 1 Erw Las,

Bethesda, Gwynedd

LL57 3NN (Ffôn 600184)

post@llaisogwan.com

Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan

Rhodri Llŷr Evans.

Y golygydd ym mis **Ionawr** fydd

Trystan Pritchard,

27 Allt Penybryn, Bethesda, LL57 3DB.

07402 373444

E-bost: trystanrp1@gmail.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn,**

28 Rhagfyr os gwelwch yn dda.

Casglu a dosbarthu **Nos Iau, 16 Ionawr,**

yn llawr uchaf Canolfan Cefnfaes am 6.45

DALIER SYLW: NID OES GWARANT

Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD

YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD

CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy

gysylltu â swyddfa

Cymdeithas Deillion

Gogledd Cymru,

Bangor (01248

353604).

Os gwyddoch am

rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a

hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob

mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd – 601415

Neville Hughes – 600853



Archebu trwy'r post

Gwledydd Prydain

Yn anffodus,

oherwydd cynnydd

aruthrol diweddar

yng nghostau postio,

'rydym wedi cael ein

gorfodi i godi ein pris o'r £27 arfaethedig

i £35 am y flwyddyn 2024.



Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru

CYMRAG

Dyddiadur y Dyffryn



Rhagfyr

21 Messiah, Handel. Capel Jerusalem,
Bethesda am 6.00yh.

22 Naw Llith a Charol Traddodiadol
yng ngolau cannyll. Eglwys St. Tegai
am 5.00.

24 Gwasnaeth Wrth y Preseb. Eglwys
Glanogwen am 4.00.

24 Gwasanaeth Noswyl Nadolig.
Eglwys St. Tegai, Llandyngai am 11.00yh.

Ionawr 2025

09 Y Gymdeithas. Festri Jerusalem am 7.00.

13 Cymdeithas Hanes D. Ogwen. Shan
Robinson. Cefnfaes am 7.00

14 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.

16 Noson gasglu a dosbarthu Llais Ogwan.
Llawr Uchaf Cefnfaes am 6.45.

28 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.

CLWB CYFEILLION

Gwobrau Rhagfyr

£30 (63) Siân Esmor Rees, Rachub.

£20 (70) Vera Jones, Glan Ffrydlas,
Bethesda.

£10 (154) Fred Buckley, Tregarth.

£5 (40) Barbara Owen, Rhos y
Nant, Bethesda.

Gwobrau Blynyddol Arbennig

£100 (112) Rhian Jones, Yr Ardd Fawr,
Gerlan.

£50 (182) Dafydd Morris, Garnedd
Uchaf, Bethesda.

£25 (46) Rhiannon Efans, Ffordd
Pant, Bethesda.

Rhoddion i'r Llais

£4.60 Di-enw, Tregarth

£10.00 Gwilym a Helen Owen, Tal y
Cae, Tregarth.

£25.00 Eirwen a Dilwyn Owen, Erw
Las, Bethesda.

£20.00 Er cof am Dylan Rowlands oddi
wrth mam, dad, a'r teulu.

£65.00 Er cof am Caeron a Nancy
Roberts, Tregarth a Jois
Snelson gan Bryn Roberts
Caerdydd.

£56.00 Er cof am Raymond a Katie
Jeffries gan Sue Jeffries,
Caerdydd.

£15.00 Gwynfryn Davies, Caernarfon


£15.00 Ann Huws, Y Fali

£10.50 Arthur a Nerys Rowlands,
Cefnddwysarn

£50.00 Er cof am Rhiannon Rowlands
oddiwrth Arthur a'r teulu

£20.00 Er cof annwyl am Glyn, gan
Gwenda, Iona Rhys, Dyfed,
Siôn Glyn a'r plantos.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion Dyffryn Ogwen, a diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus.



Talybont

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda (600853)
Barbara Jones, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

Gwasanaeth Post

Mae'n dda gennym gael dweud bod fan y Post wedi dod yn ôl i'r pentref. Mae'n galw bob p'nawn dydd Mercher yng Nghae Bach o 2:50 tan 3:10, ac yn aros yn ymyl Bro Emrys o 3:15 tan 3:30. Post-Feistres sydd gennym y tro hwn.

Anfonwn dymuniadau da at Mathew, ein cyn Post-Feistr, ar ei yrfa newydd fel Gyrrwr i Gwmni Bysiau Arriva.

Profedigaeth

Estynnwn gydymdeimlad dwysaf at Ifan, Maes y Groes, a gollodd ei frawd, Rob, ym mis Hydref. Roedd y Parch. Robert Jones yn Ficer yn Wrecsam. Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn un anodd iawn i Ifan a'r teulu. Gobeithio y gwyddont fod eu ffrindiau a chymdogion i gyd yn meddwl amdanynt.

Adre'n ôl

Mae'n braf gweld Lis, 2 Min Ogwen, yn ôl yn ei chartref ac yn gwella'n dda.

Mae Linda, 69 Bro Emrys, wedi cael clun newydd ac yn gwneud yn ardderchog. Bydd hi'n mynd am dro bach bob dydd i gryfhau'r goes. Dalia ati, Linda.

Dymuniadau gorau

Mae Jean Hughes, Bryn Awel, wedi cael ei symud i Ysbyty Eryri. Yn Ward Padarn mae hi ar hyn o bryd ac yn derbyn gofal da iawn gan y nyrsus. Mae'ch ffrindiau i gyd yn cofio atoch yn gynnes iawn, Jean.

Penblwydd arbennig

Pob bendith a dedwyddwch i Karen Desch, 69 Bro Emrys, a ddathlodd ei hanner canfed penblwydd ar Dachwedd 27ain. Ymlaen i'r hanner cant arall rwan, Karen.

Cyfarchion

Dymuniadau gorau am Wyl dangnefeddus i'n ffrindiau oll yn y Dyffryn. Gwyddom na fydd y Nadolig yn llawen i lawer un, ond gobeithio y caiff pawb fendith a chysur yng nghwmni teulu a ffrindiau dros Wyl y Geni, ac y daw'r Flwyddyn Newydd â iechyd da a dedwyddwch inni i gyd.

Capel Bethlehem

Oedfaon (am 2 o'r gloch)

Rhagfyr 22: Parchg. Iwan Ll. Jones.
Rhagfyr 29: Dim oedfa.
Ionawr 05: Parchg. Cledwyn Williams.
Ionawr 12: Parchg. Eric Jones.
Ionawr 19: Oedfa.
Ionawr 26: Parchg. Gwenda Richards.

Croeso cynnes i bawb.

Ffair Nadolig

Cynhaliwyd ein Ffair Nadolig flynyddol yn y Ffestri ar nos Fawrth, 3 Rhagfyr. Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth eto eleni. Gwnaed elw ardderchog o £970.00.

Cofion

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at ein trysorydd, Mrs. Jean O. Hughes, sydd yn Ysbyty Eryri ar hyn o bryd.

DAFYDD CADWALADR

CYNHYRCHION COEDLANNOL

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed Asiant system
gwresogi trwy losgi coed

01248 605207

Londis BETHESDA

01248 605566

Archfarchnad hwylus a Swyddfa
Bost Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau
trydan a nwy Ar agor 7.00 y bore tan
10.00 yr hwyr 7 diwrnod yr wythnos

J. TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.

Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531 | 01248 600282
jtempl Morris@btinternet.com

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Timber & Builders' Merchants

Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinnel - Llandudno

C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau Llangefni a Llanrwst.



Bethesda 01248 600 045

bethesda@cljonesltd.co.uk

Rhiwlas

Annes Glynn, Bwthyn Cefn Braich,
Rhiwlas LL57 4HB
annes.glynn@gmail.com
(01248) 351015

Cwis Hwyl

Cynhaliwyd Cwis Hwyl Cenedlaethol Merched y Wawr ar nos Wener, Tachwedd 8 yn Neuadd y Groeslon. Mae'n gwis y mae cangen Rhiwlas wedi ei ennill mwy nag unwaith dros y blynyddoedd. Rhuthun oedd y buddugwyr eleni efo 95 o farciau ond roedd Rhiwlas yn dynn ar eu sodlau nhw a'r timau eraill a ddaeth yn ail a thrydydd – tri thîm o Arfon a oedd hefyd yn cystadlu yn Y Groeslon. 92 oedd sgôr Rhiwlas. Aelodau'r tîm eleni oedd Nia Mair, Catherine ac Annes. Diolch i aelodau'r Groeslon am y croeso a'r lluniaeth, ac am noson hwyliog.

Clwb Rhiwen

Daeth nifer o'r aelodau ynghyd brynhawn Mercher Tachwedd 18 yn y Neuadd Bentref. Ein gwraig wadd oedd Gwyneth Hosker o Hen Golwyn a chafwyd prynhawn diddorol iawn yn gwrandao a gweld Gwyneth yn egluro ac yn creu Gardd mewn Cwpan De gyda dail a blodau tymhorol o'r ardd. Yna cafodd yr aelodau gyfle i greu gardd fach eu hunain.

Lesley a Gwenda oedd yn cynorthwyo Gareth i baratoi'r banad. Roedd y raffl yn rhoddedig gan Lesley a Gwenda a'r enillydd oedd Martin.

Yn ein cyfarfod nesaf ar Ragfyr 18 bydd y clwb yn ymweld â'r Anglesey Arms ym Mhorthaethwy am ein cinio Nadolig. Ein gwâr gwadd yng nghyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd, ar Ionawr 15, fydd Gareth Roberts.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn ymuno â Chlwb Rhiwen rydym yn cyfarfod ar y trydydd prynhawn Mercher o'r mis am 2 y.p. yn Neuadd Bentref Rhiwlas. Croeso mawr ichi!

Merched y Wawr

Cafodd yr aelodau brynhawn difyr yn ein cyfarfod mis Tachwedd dan ofal Jen a fu'n sôn wrthym ni am y grefft o 'quilling' – os oes unrhyw un yn gwybod beth yw'r term Cymraeg am hyn, gadewch inni wybod! Mae'n golygu defnyddio sribedi tenau o bapur wedi eu trin yn bwrpasol i greu 'clymau' bach tynn mewn gwahanol siapiau y medrwhc



Ana a Nel wrth eu boddau yng nghwmni Siôn Corn yn y Neuadd!

chi wedyn eu defnyddio i greu lluniau ac ati. Cardiau bach Nadolig oedd dan sylw yn y sesiwn. Mae'n grefft sy'n cymryd cryn amynedd a sgil, ond fe fwynhaodd pawb y profiad. Paratowyd y te gan Linda a Carys ac enillydd y raffl oedd Mari. Bydd cyfarfodydd y gangen yn aildddechrau ar Chwefror 11. Croeso mawr i aelodau newydd a chyn-aelodau nad ydym wedi eu gweld ers sbel. Fe fyddai'n braf cael eich cwmni.

Cofio Pisgah

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae adeiladau Eglwys Sant George, Capel Ysgoldy, Capel Peniel a Chapel Pisgah wedi cau eu drysau yn y pentref. Rhag bod eu pwysigrwydd i drigolion yr ardal yn mynd yn anghof mae Cadi a Cynrig wedi llunio arddangosfa yn y Neuadd. Ar y rhodfa i'fyn i'r gegin a'r ystafell bwyllgor, gallwch weld creiriau o'r capeli, ffotograffau ac ychydig o hanes pob achos.

Yn ddiweddar gosodwyd carreg Capel Pisgah yn y Neuadd gan Dylan Griffiths gydag Osian Rowlands a Gareth Williams, y ddau yn



Dylan, Gareth ac Osian wrth eu gwaith yn gosod Carreg Pisgah yn y Neuadd

aelodau o'r capel, yn rhoi help llaw.

Meddai Cynrig: "Mae angen diolch hefyd i Carol am ei chymorth gyda'r trefniadau. Rhaid pwysleisio ei chyfraniad gwerthfawr i'r achos, ac er bod drysau adeilad Pisgah wedi cau mae Carol yn parhau i drefnu gwasanaethau'r Sul, sydd 'nawr yn cael eu cynnal yn Neuadd Rhiwlas ar foreau Sul."

Ffair Nadolig Dyffryn Ogwen

Ar nos Fercher yr 20fed o Dachwedd, cynhaliwyd Ffair Nadolig lwyddiannus iawn yn Neuadd Ogwen. Gyda dros 30 o stondinau gwahanol yno gyda chynnyrch amrywiol, cafwyd noson i'w chofio gyda'r gymuned yn dod at ei gilydd unwaith eto i gefnogi crefftwyr a chynhyrchwyr lleol. Roedd hi'n noson hynod o brysur ac fe hoffai'r trefnwyr ddiolch i chi i gyd am ddod draw i fwynhau'r digwyddiad. Gallwch gysylltu gyda'r stondinwyr yn uniongyrchol ar eu gwefannau cymdeithasol petaech angen.



Capel Shiloh Newydd

Gwasanaethau'r Sul

Fel sy'n arferol yr adeg hon o'r flwyddyn ni fydd gwasanaethau yn cael eu cynnal yn ystod mis Ionawr a Chwefror. Bydd y drysau'n ailagor ar y Sul cyntaf ym mis Mawrth ac edrychwn ymlaen at eich croesawu'n ôl bryd hynny, ac at groesawu wynebau newydd hefyd.



Sioe Cyw

Cafodd y Cyfnod Sylfaen fore bendigedig yn y Galeri, Caernarfon yn gwylio Sioe Nadolig Cyw. Profiad llawn cyffro, a phawb wrth eu boddau ac yn llawn egni yng nghwmni criw Cyw, Ben Dant a'r dyn ei hun... Siôn Corn!

Noson Agored

Cynhaliwyd noson agored yn neuadd yr ysgol ychydig o wythnosau'n ôl. Roedd hwn yn gyfle i ni ryngweithio â rhieni, croesawu teuluoedd newydd i gymuned yr ysgol, ailgyflwyno ein

Cwricwlwm a chynnal sesiwn holi ac ateb byr. Mae cynlluniau ar y gweill i gynnal noson agored arall yn ystod y misoedd nesaf a bydd mwy o wybodaeth yn dilyn yn y flwyddyn newydd.

Tesco

Yn ddiweddar, cafodd disgyblion Ysgol Rhiwlas gyfle i dynnu llun Nadoligaidd i'w arddangos yn Tesco, Bangor. Hoffem ddiolch i Sarah a'r tîm am eu haelioni, wedi i'r ysgol dderbyn rhoddion tuag at raffl, bocs mawr o ffrwythau yn ogystal ag ambell beth melys i'r plant. Os ydych chi'n siopa yn Tesco, cofiwch gadw llygad am y lluniau Nadolig hyfryd!

Gwasanaeth Diolchgarwch

Am sioe! Pleser oedd croesawu rhieni a ffrindiau'r ysgol i'n Gwasanaeth Diolchgarwch eleni. Roedd y plant yn darllen ac yn canu'n hyfryd ac yn ein hatgoffa ni i gyd o'r hyn mae'n rhaid i ni fod yn ddiolchgar amdano; roedd y coffi a chacennau yn ychwanegiad braf hefyd! Diolch i bawb a ddaeth i'n cefnogi ac i'r rhai a gyfrannodd unrhyw fwyd i'r banc bwyd lleol - Hwb Ogwen. Mae pob rhodd yn bwysig, gan ei fod yn eu galluogi nhw i gefnogi teuluoedd lleol. Felly os ydych chi'n gallu cyfrannu dros y misoedd nesaf, byddai'r Hwb yn gwerthfawrogi yn fawr iawn - mae croeso i chi ddod â'ch rhoddion i lawr i'r ysgol.

NSPCC

Dros y tymor yma, mae'r ddau ddsbarth wedi bod yn dysgu am yr NSPCC a'u hymdrechion i amddiffyn plant a phobl ifanc. Cynhaliwyd gwasanaethau ar-lein ar gyfer y dosbarthiadau, lle dysgon nhw am eu hawl i siarad allan a chadw'n ddiogel. Yn dilyn y gwasanaethau yma, cafodd blynyddoedd 2, 5 a 6 sesiynau gyda gwirfoddolwyr yr NSPCC, Siân a Bethan yn yr ysgol. Diolch yn fawr iawn am ddod i'n gweld ni.



Diwrnod Plant Mewn Angen

Llwyddwyd i godi £62 ar gyfer Plant Mewn Angen eleni. Daeth disgyblion i'r ysgol yn eu pyjamas a gwneud ymdrech fawr ar gyfer y Gystadlueth Gwallt Gwirion. Da iawn bawb, achos teilwng iawn.

Ysgoloriaeth i Gwion

Myfyrwr amaeth 18 mlwydd oed o Ddyffryn Ogwen yw'r person cyntaf i ennill Prif Ysgoloriaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gwerth £3,000, ym maes Amaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Mae Gwion Pritchard, cyn-ddisgybl yn Ysgol Dyffryn Ogwen, a gwblhaodd gwrs amaeth lefel 3 yng Ngholeg Meirion Dwyfor, Glynllifon, wedi ennill yr ysgoloriaeth i astudio Amaeth yn y brifysgol.

Fe roddir Prif Ysgoloriaethau gan y Coleg yn flynyddol i ymgeiswyr llwyddiannus sy'n dewis astudio o leiaf 66% o'u cwrs gradd mewn unrhyw bwnc trwy gyfrwng y Gymraeg.

Magwyd Gwion ar fferm biff a defaid yn Nhal-y-Bont, Gwynedd lle mae gwartheg Duon Cymreig x Limousin a defaid mynydd Cymreig yn cael eu ffermio. Mae hefyd yn aelod gweithgar o glwb ffermwyr ifanc Dyffryn Ogwen ac yn ei amser hamdden mae'n chwarae i glwb rygbi Bethesda.

(Gol - Addaswyd o wefan newyddion Prifysgol Aberystwyth).



Difyrion Digidol gyda Deian ap Rhisiart

Un o'r gwefannau sydd wedi hen sefydlu'i hun erbyn hyn ac hynny ers dros ddeng mlynedd yn y Gymraeg yw gwefan <https://lleol.cymru/>. Mae'r wefan ymhlith y rhai mwyaf poblogaidd yn y Gymraeg. Yr ydym fel Cymunedau Digidol Cymru wedi bod yn cynnal cyrsiau hyfforddiant yn codi ymwybyddiaeth o'r adnoddau sydd ar gael yn Gymraeg ar y We, ac mae Lleol.cymru sy'n wefan annibynnol, uniaith Gymraeg yn enghraifft wych o wasanaeth hanfodol ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Efallai eich bod wedi clywed amdani yn fwy na dim oherwydd y swyddi sy'n cael eu hysbysebu arni. Mae'r swyddi sydd arni fel arfer yn gofyn am fedr yn y Gymraeg sy'n rhan ganolog o'i nod a'i phwrpas. Ar gyfer myfyrwyr sydd newydd raddio neu bobl sydd angen gyrfa newydd ym mha bynnag faes, nid oes raid mynd yn ymhell na gwefan Lleol.cymru i gael y swyddi diweddaraf. Mae'r wefan yn ddeniadol ac yn hawdd i'w defnyddio, ond mae yna lawer mwy na swyddi ar y Wefan ac mae'n bosib nad yw pobl yn ymwybodol o'r cynnwys eraill sydd yno. Mae yna sawl adran o fewn Lleol.cymru ar y ddewislen gan gynnwys yr adran Newyddion, Digwyddiadau ac yn y blaen.

Mae'r adran newyddion yn cynnwys erthyglau difyr am y byd Cymraeg o Fôn i Fynwy. Wrth i'r erthygl hon gael ei hysgrifennu, mae yna eitem yn cynnwys y Ffair Aeaf yn Llanelwedd; am Gymro o Gaerfyrddin sydd wedi creu llwyfan digidol arloesol i wella addysg cyfrwng Gymraeg. Y mae yna hefyd Oriol Luniau

sy'n edrych yn ôl ar Ddiwrnod Shwmae Su'Mae 2024 a gynhelir bob blwyddyn ar Hydref 15fed. Mae yna hefyd oriel yn talu teyrnged i'r digymar Dewi Pws a fu farw'n ddiweddar. Tra yn yr Oriol Fideo, mae yna ddedholiad o fideos wedi'u rhannu am ddigwyddiad neu garreg filltir. Y ddiweddaraf sydd yn yr Oriol yw cyfres o fideos y band adnabyddus, Brigyn dros yr 20 mlynedd diwethaf.

Os gliciwch chi ar y Posau a'r Cwisiau ar y ddewislen, mae yna sawl cwis i'ch herio a'ch cadw'n brysur am rai oriau - am Gareth Bale, neu 'Pa mor dda ydych

yn adnabod afonydd Cymru? Neu' Pa mor dda ydych yn adnabod traethau Cymru?'


Cwestynau anodd i brofi'ch hun am Gymru!

Cadwch lygaid hefyd am gystadlaethau sy'n cael eu cynnal ar y Wefan yn gyson. Mae

yna wobrau gwych i'w hennill ond er mwyn cystadlu, mae'n rhaid i chi gofrestru i fod yn aelod o'r wefan yn gyntaf. Dyma'r ddolen i gofrestru: <https://lleol.cymru/cy/cofrestru>

Felly ewch draw i wefan Lleol.cymru, mae yna fwy na swyddi arni a digon o gynnwys i'ch diddanu a'ch haddysgu. Er fod cynnwys Cymraeg ar y We yn fychan o'i gymharu â'r cynnwys Saesneg, serch hynny, mae gwefannau fel Lleol.cymru yn gyfraniad amhrisiadwy at ein diwylliant ac yn mynd at ehangu'r cyfoeth a'r dewis sydd ar gael yn ddigidol yn y Gymraeg.

Os hoffech gymorth neu gyngor ar unrhyw agwedd o'r byd digidol, cysylltwch gyda mi deian.apRhisiart@cwmpas.coop



Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead cyf

Swyddfa Gofrestredig Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257

Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



STEPHEN JONES TREFNWR ANGLADDAU CYF

PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS



BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
E-bost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

UN RHES, DAU DDEG DAU O DAI

Gan Andre Lomozik

RHAN 23

20 OGWEN TERRACE, BETHESDA

Y Parch. Thomas Roberts a'i wraig Winifred oedd yn byw yn rhif 20 Ogwen Terrace yn 1871. Roedd Thomas Roberts wedi ei eni yn Ninbych, a'i wraig yn dod o'r Bermo. Ganwyd Thomas yn 1836 a Winifred yn 1842. Roedd ganddynt forwyn o'r enw Catherine Parry, yn enedigol o Gaernarfon, ac roedd hi'n 24 oed. Gweinidog gyda'r MC oedd Thomas. Yn *Y Goleuad* dyddiedig Chwefror 21, 1874 cawn hysbyseb gan Richard Davies, Pensaer o Fangor, yn galw i sylw adeiladwyr a fyddai â diddordeb mewn rhoi cais i ehangu a gwella capel Jerusalem, Bethesda, y ceisiadau i'w hanfon i'r Parchedig Thomas Roberts, Bethesda, ddim hwyrach na 6 o'r gloch ddydd Gwener y 6^{ed} o Fawrth canlynol.

Ganwyd mab i'r Parch. Thomas Roberts a'i wraig Winifred yn y flwyddyn 1873 o'r enw Arthur Rhys.

Yn y *NWC* gorffennaf 17, 1875, mae'r Parchedig Thomas Roberts yn cael ei enwi fel un o aelodau Pwyllgor Rheoli Coleg Normal Bangor. Yna yn *Y Genedl Gymreig*, dydd Iau Ebrill 19, 1877, mae'r Parchedig Thomas Roberts, Jerusalem, Bethesda, yn cael ei enwi fel un o gynrychiolwyr Arfon yng cynhadledd y MC yn Abermaw.

Roedd y teulu'n dal i fyw yn 20 Ogwen Terrace yn 1881 ac yn 1891, ond bod y morwynion wedi newid. Yn 1881, merch o'r enw Grace Jones o Lanllechid oedd yn gweini yno, ac erbyn 1891 Elizabeth Jones, o Landygái oedd gyda'r teulu. Roedd Arthur yn ddeunaw oed erbyn hyn ac yn gweithio fel Clerc/Cyfreithiwr, ond yn dal i fyw adref gyda'i rieni.

Bu farw'r Parchedig Thomas Roberts yn sydyn nos Wener, Tachwedd 25^{ain} 1899, er bod ei iechyd wedi torri ers cryn amser. Dechreuodd ei yrfa yn gweithio ar fferm i gynorthwyo ei fam ar ôl i'w dad farw yn ddydd ifanc, cyn symud ymlaen i weithio i Wasg Gee fel cysodwr, ac yna ymuno â'r weinidogaeth.

Bu'n gweinidogaethu yng Ngholwyn, Llanellian, a Chroesengan cyn derbyn yr alwad i fod yn weinidog ar Eglwys Jerusalem, Bethesda yn 1866, ac fe sefydlwyd ef ar y 9^{fed} o Ionawr 1867 yno. Fe briododd â Winifred yn 1870 a ganwyd eu hunig fab Arthur Rhys yn 1873, a aeth yn ei flaen i fod yn gyfreithiwr. Mae gweddillion y Parchedig Thomas Roberts, ym mynwent Eglwys Crist, Glanogwen.

Ar ôl marwolaeth ei gŵr symudodd Winifred o Fethesda i fyw at ei mab yn Llundain. Yng



ngyfrifiad 1901, maent yn byw yn rhif 28 Marjorie Grove, Battersea, Clapham. Roedd Arthur yn gyfreithiwr trwyddedig erbyn hyn, ac yn ddydd senl o hyd. Yna erbyn cyfrifiad 1911

mae Arthur wedi priodi â Hannah Dilys Rhys Roberts, canwr proffesiynol, 28 oed, wedi ei geni yn Llaneurgain, Sir y Fflint. Roeddynt wedi priodi ers tair blynedd, a bachgen bach o'r enw Thomas Esmor Rhys, 11 mis oed, ganddynt. Roedd y teulu'n byw yn rhif 23 Albion Road, Hampstead erbyn hyn, gyda dwy chwaer o Flaenau Ffestiniog yn gweini iddynt, sef Gwen a Annie Humphreys, un yn nyrs, a'r llall yn gogyddes, Gwen yn 26, ac

Annie yn 24 oed. Nid oedd mam Arthur wedi ei henwi yn y cyfrifiad.

Bu Winifred, gwraig y Parch. Thomas Roberts, farw yn rhif 63 Balham Park Road, Llundain, ar Ddydd Nadolig 1903, ac fe'i claddwyd gyda'i gŵr ym mynwent Eglwys Crist, Glanogwen.

Dyma'r ysgrif ar y garreg fedd: 'Yma y gorphwys y Parch. Thomas Roberts, wedi diwrnod prysur o lafyr fel gweinidog Iesu Grist. Bu yn gofalu dros eglwys Jerusalem a Thynmaes Bethesda, am 33 o flynyddau. Gadwodd noswyl ar y 24ain o Dachwedd 1899 yn 64 mlwydd oed. Yn ddiau llawn ydoedd efe o rym gan Ysbryd yr Arglwydd. Yma hefyd y gorphwys ei anwyl briod Gwen (Winifred) yr hon wedi arhosiad byr a'i dilynodd ar ddydd Nadolig 1903, A hithau yn 62 mlwydd oed. Ymdrechodd hardd-deg ymdrech y ffydd; Gymerodd afael ar y bywyd tragwyddol.'

Gŵr a gwraig o'r enw **John Lewis Griffith a Ellen Griffith** oedd yn byw yn rhif 20 Ogwen Terrace yn y cyfrifiad a gymerwyd ar y dydd olaf o Fawrth 1901. Chwarelwr oedd John, ac wedi ei eni ym Methesda yn 1864. Roedd Ellen yn enedigol o Garndolbenmaen, wedi ei geni yn 1861. Roedd bachgen o'r enw David Rees Richards yn lletywr gyda hwy. Roedd o yn enedigol o Gastell Nedd, ac yn gweithio fel clerwr mewn banc.

Yn *Baner ac Amserau Cymru*, Mehefin 26, 1901, mae hysbysiad yn y golofn genedigaethau yn cyhoeddi 'Griffith – Mehefin 16eg, priod Mr John L. Griffiths (Llew Ogwen), Ogwen Terrace, Bethesda, ar ferch.'

Yna yn y *North Wales Express*, dyddiedig Medi 12^{fed} 1902, tud. 8, cawn hanes y teulu yn ymfudo i'r Unol Daleithiau. Mae'n ymddangos fod Ellen wedi bod yn byw yn yr Unol Daleithiau am tua deng mlynedd cyn cyfarfod â'i gŵr, ac efallai yn wraig weddw, neu wedi cael ysgariad, oherwydd mae hanes eu priodas anghyffredin i'w gael yn *Y Drych*. 'Priodas John Lewis-Griffith (Llew Ogwen), Poultney, Vermont, gyda Mrs Ellen A. Price, Delta, Pa.' Y ffaith fwyaf nodedig ynglŷn a'r briodas yw i'r ddau gwrdd â'i gilydd y diwrnod cyn y briodas am y tro cyntaf erioed.

Chwe mlynedd yn ddiweddarach mae hanes marwolaeth Ellen Griffith yn ymddangos yn *Yr Herald Cymraeg*, Hydref 13, 1908, tud. 3: 'MARW PRIOD LLEW OGWEN. Wedi bod yn nychu gan y darfedigaeth (TB) am saith mis, bu farw Mrs Ellen Griffith, priod John L. Griffith (Llew Ogwen), yn 44 mlwydd oed. Merch ydoedd i'r diweddar Morris J. Williams, Ffestiniog (gynt o'r Garn), lle y ganwyd hi. Yr oedd unwaith yn adnabyddus iawn i Gymru New York, a threuliodd ddeng mlynedd yno gan ymaelodi yn Nghapel yr Annibynwyr ar 11th St. Ychydig gydag wyth mlynedd yn ôl daeth drosodd i Gymru, a phriodwyd hwynt yn fuan wedi hynny yn ninas Bangor. Wedi byw yn Methesda. Arfon, am ddwy flynedd a hanner, aethant i America, gan ymsefydlu yn Granville. Cawn adroddiad arall yn *Y Drych* dyddiedig Chwefror 15, 1917, am farwolaeth tad Llew Ogwen, sef Lewis Griffiths, Brynlllys; chwarelwr ac yn flaenor yn Jerusalem ers blynyddoedd. Ac yn dad i'r diweddar John Griffith (Llew Ogwen) a fu yn gweithio yn rhai o chwareli Granville.'

Mae hanes priodas yn ymddangos yn *Yr Herald Cymraeg*, Gorffennaf 13, 1909, rhwng Mr Robert David Griffith, 4 Gordon Terrace, Bethesda, a Miss Ellen (Lella) Owen, 20, Ogwen Terrace, Bethesda, (merch y diweddar Barch. Owen Owen, Bethel, Môn).

Nid oes enwau am rhif 20 Ogwen Terrace yng nghyfrifiad 1911. (i'w barhau) Y tro nesaf – Rhif 21 Rhes Ogwen.



Iaith Pesda

gan Mary Jones

Rheinws

Dyma'n henw ni ar yr adeilad sydd ar y stryd fawr wrth y tro i Allt Penybryn, gyferbyn â Rhes Ogwen. Mae'r adeilad yn cael ei ddefnyddio heddiw gan siop trin gwallt Copa a Chaffi Seren, ond swyddfa'r heddlu oedd o ar un adeg. Yn ôl yr wybodaeth sydd mewn cofnod ar y we, mae 'rheinws', sef 'yr heinws', wedi dod o'r hen enw Saesneg 'hein-house' am garchar neu ddalfa. Mae'r enw 'hein-house' i'w weld mewn adroddiad gan Sais o'r enw Brown Willis a oedd yn ysgrifennu arolwg o'r gadeirlan ac adeiladau eraill yr eglwys ym Mangor yn 1721. Mae'n nodi bod 'hein-house' wrth ymyl y gadeirlan ac yn disgrifio'r adeilad fel carchar dan ofal



yr esgob. Roedd swyddfa'r heddlu hyn na'r rheinws ym Methesda, a hynny yn Stryd Glanrafon, rhwng y Stryd Fawr ac Afon Ogwen. Dyna pam mae'r stryd hon yn cael ei galw'n Stryd Lock Up.

dim ffiars o berig. Dim bwriad o gwbl i wneud rhywbeth – “Dim ffiars o berig y bydda' i'n mynd efo chdi i nunlle eto!”

gwlych. Yr hyffif blasus a wneir o'r sudd sy'n dŵad allan o gig wrth ei goginio 'Mae isio mwy o wlych yn y cawl 'ma.” Fydda i wrth fy modd efo gwlych lobsgows.

lol botas / lol botas maip. Potas ydy math o gawl tebyg i lobsgows ond bod mwy o wlych efo fo. 'Lol botas' ydy rwdlian yn gymysglyd – “Lol botas maip oedd y stori honno i gyd.”

dychryn i ffitia. Cael braw mawr nes bod rhywun wedi ei styrbio'n arw – bron fel cael ffit – “Mi ddychrynodd i ffitia pan welodd hi' ddamwain ofnadwy.”

niwsans glân. Ebychiad ydy hwn i fynegi siom pan fo pethau'n mynd o chwith – “Niwsans glân! Mae hi wedi dŵad yn law a finna newydd roi dillad ar lein.”

marddwr. Dŵr llonydd ydy hwn – 'marw ddŵr'. Marddwr Ogwen ydy'r darn o'r afon rhwng Rhaeadr y Benglog islaw Llyn Ogwen a Phont Ceunant yn Nhy'n y Maes, a Marddwr Llafar ydy'r rhan araf o Afon Llafar sydd yng Nghwm Pen Llafar.

yli. Ffordd o ddweud 'weli di' ydy hwn, fel y cyfarchiad 'look' yn Saesneg – “Yli, mae'n mynd iti gallio neu mi fydd hi'n ddrwg arnat ti!”

gafal yn'i. 'Gafael ynddi'. Hynny ydy mynd ati o ddirif i wneud rhywbeth – “Mae'n hi'n hen bryd i'r hogyn 'ma afa'l yn'i yn yr ysgol 'na!”

tonnan/sigl-donnan. Cors beryg yn y mynydd ydy tonnen – pwll dŵr o dan groen y ddaear, a chroen ambell un yn siglo.

cau. 'Nacáu' ydy'r gair yn llawn, ac mae o'n golygu 'gwrthod' – “Mae'r hogyn 'ma'n cau gwranddo ar neb!”

wedi canu. Dim gobaith i wneud rhywbeth – “Mae eu car nhw'n gorfod cael ei drwsio, felly mae hi wedi canu arny'n nhw i fynd ar eu gwylia”

cecru, cecran. Weithiau dywedir bod plant neu bobl yn 'cecru' neu 'gecran' ymysg ei gilydd. Maent yn swnian neu yn codi helynt. Gellir galw person sy'n dueddol o wneud hyn yn 'berson cecrus.'

rêl grifans. Dyma ddywedir am berson sydd yn cwyno neu swnian drwy'r amser **magu traed.** Wrth chwilio am rywbeth arbennig a hwnnw ddim yn ei le arferol dywedir ei fod wedi 'magu traed.'

paldaruo. Siarad yn ddibaid am ryw bwnc neu'i gilydd gan, efallai, golli trywydd y sgwrs a mynd i 'falu awyr.'

Cyn cloi pen y mwdwl am y mis ac yn wir am y flwyddyn yma cefais gwestiwn gan un o'm cymdogion y diwrnod o'r blaen – “Wyddos ti cacan gri, be mae gri yn ei feddwl?” Erbyn meddwl doeddwn i erioed wedi ystyried hyn a does gen i ddim syniad chwaith beth ydy'r 'gri' mewn cacen gri, neu 'cri' heb ei dreiglo. Yng nghanol y pwddin 'Dolig, y mins peis a'r treiffl tybed fydd gan un ohonoch ateb i mi? Cyfarchion y Nadolig at bawb.

Cofiwch anfon unrhyw sylwadau ataf: Mary Jones 42 Erw Las, Bethesda LL57 3NN, 07443047642, maryeds@hotmail.co.uk

Pentir

Cynrig a Carys Hughes,
Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB
(01248 601318)
carys16@hotmail.com

Canu Carolau

Yn flynyddol bydd y gymuned yn dod at ei gilydd i ganu carolau. Eleni, bydd hyn yn cymryd lle ar 18fed Rhagfyr am 7.00yh ar Sgwâr Pentir. Pe bai'r tywydd yn anffafriol, defnyddir Eglwys Sant Cedol.

Project Awyr Dywyll Eryri

Yn ddiweddar cynhaliwyd cyfarfod yn Eglwys Sant Cedol dan arweiniad aelod o Broject Awyr Dywyll Eryri. Esboniwyd effaith llygredd golau ar bobl a bywyd gwyllt yn enwedig ystlumod, tylluanod ac adar.

Gall pob unigolun chwarae rhan mewn gwarchod awyr dywyll:

1. Defnyddio goleuadau pan fo angen yn unig.
2. Pwyntio goleuadau y tu allan tuag i lawr.
3. Osgoi defnyddio goleuadau addurnol.
4. Defnyddio goleuadau ond mewn manau sydd eu hangen yn unig.

Ffenestri Adfert

Mae traddodiad o addurno ac arddangos ffenestri yn yr ardal pob diwrnod o fis Rhagfyr fel modd i ddatlu'r Nadolig. Bydd y ffenestr gyntaf yn cael ei harddangos ar 1af Rhagfyr ac un newydd pob nos i fyny i noswyl Nadolig. Beth am ddod heibio i edmygu gwaith creadigol y pentrefwyr?

JR SGAFFALDIAU Cyf.
SCAFFOLDING Ltd. JR

**YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA,
GWYNEDD LL57 3NE**
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

**Ffôn/Ffacs: 01248 601754
07770 568743 (symudol)**



**MODURON
PANDY Cyf.**

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwysu Teiars
Batris
Tracio

01248 600619

**moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk**

Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY

Eisteddfod Dyffryn Ogwen 2024

Cyfarfod yr Hwyr – Nos Wener Tachwedd 15fed, 2024

Unawd Lleisiol Uwchradd:

1af – Gwenno Beech, Bethesda
2il – Alis Glyn Tomos, Caernarfon
3ydd – Non Prys, Porthaethwy
4ydd – Esther Parry, Tregarth

Unawd Offerynnol (yn cynnwys piano):

1af – Esther Parry, Tregarth
2il – Maxine Guest, Ysgol Dyffryn Ogwen
3ydd – Gwenno Roberts, Tregarth

Côr Cymysg/Meibion/Merched:

1af – Côr y Penrhyn
2il – Cornarfon

Perfformiad Dramatig

1af – Alis Glyn, Caernarfon
2il – Mari Prys, Porthaethwy
3ydd – Gruff Beech, Bethesda

Unawd Agored

1af – Steffan Llewelyn, Caernarfon

Perfformiad Mwyaf Addawol Ysgol Dyffryn Ogwen

Maxine Guest, Ysgol Dyffryn Ogwen

CANLYNIADAU'R ADRAN LLÊN AGORED

Enillydd y Gadair:

Y Parch. Judith Morris, Penrhyn-coch, Aberystwyth

Enillydd y Fedal Ryddiaith:

Rhian Tomos, Caernarfon

Enillydd Medal yr Ifanc:

Gwenno Grug Roberts, Tregarth
2il – Eban Pritchard – Ysgol Dyffryn Ogwen

Englyn – Osian Rowlands, Llandwrog
Limrig – Cydradd 1af - M.A. Jones, Yr Ynys, Rachub; Megan Richards, Aberaeron; Osian Rowlands, Llandwrog
Englyn ysgafn – John Ffrancon Griffith, Abergele
Stori fer – Sally Ann Nicholls, Y Bontfaen, Morgannwg

LLÊN YR IFANC

Blynyddoedd 7-9: Cerdd neu ddarn o ryddiaith

1af – Gruff Beech – Ysgol Dyffryn Ogwen
2il – Celyn Rhys – Ysgol Dyffryn Ogwen
Cydradd 3ydd – Arawn Gwilym a "Roberto" – (ffug enw) – Ysgol Dyffryn Ogwen

Blynyddoedd 10-11:

1af – Erin Carson – Ysgol Dyffryn Ogwen
2il – Elsa Hofstead - Ysgol Dyffryn Ogwen
Cydradd 3ydd – Gwenno Beech a Gwydion Davies – Ysgol Dyffryn Ogwen



Y pedair enillodd wobwr am yr unawd lleisiol - Esther, Non, Alis a Gwenno



Y tri ddaeth i'r brig yn y cyflwyniad dramatig Gruff, Mali ac Alis.



Ein beirniaid gwych - Ilid Anne Jones a Steven John Evans Justice



Cor Bl. 6 ac iau – Buddugol Ysgol Llanllechid.



Unawd Blwyddyn 2
 1af - Efa Hughes, Ysgol Llanllechid.
 2il - Efa Fflur, Ysgol Llanllechid.
 3ydd - Nanw Branwen Glyn, Ysgol Abercaseg



Unawd Offerynnol -
 Esther Parry, Tregarth



Unawd Blynnyddoedd 5 a 6
 1af - Elsi Allsup, Ysgol Llanllechid.
 2il - Owain Bishop, Ynys Môn.
 Cydradd 3ydd - Efa Gwen ac Erin Roberts, Ysgol Llanllechid.

Canlyniadau Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen Tachwedd 16eg, 2024

Llefaru Meithrin

1af – Ela Grace – Ysgol Llanllechid
2il – Martha Jones – Ysgol Llanllechid
3ydd – Eila Non Huws – Ysgol Llanllechid

Unawd Meithrin

1af – Eila Non Huws – Ysgol Llanllechid
2il – Loti Radford – Ysgol Llanllechid
3ydd – Cali Mildoon – Ysgol Llanllechid

Llefaru Derbyn

1af – Elgan Dafydd – Ysgol Llanllechid
Cydradd 2ail – Seren Honeyset a Nansi Doyle – Ysgol Llanllechid
Cydradd 3ydd – Noa Ellis Roberts, Anna Roberts ac Ela Bartley – Ysgol Llanllechid

Unawd Derbyn

1af – Noa Ellis Roberts – Ysgol Llanllechid
2il – Enya Ogwen – Ysgol Abercaseg
3ydd – Ela Bartley – Ysgol Llanllechid

Llefaru Blwyddyn 1

1af – Eos Huws – Ysgol Llanllechid
2il – Noa Jones – Ysgol Llanllechid
Cydradd 3ydd – Enlli Medi a Begw Grug – Ysgol Abercaseg

Unawd Blwyddyn 1

1af – Noa Mildoon – Ysgol Llanllechid
2il – Begw Grug Williams – Ysgol Abercaseg
3ydd – Eli Williams – Ysgol Abercaseg

Unawd Blwyddyn 2

1af – Efa Hughes – Ysgol Llanllechid
2il – Efa Fflur – Ysgol Llanllechid
3ydd – Nanw Branwen Glyn – Ysgol Abercaseg

Llefaru Blwyddyn 2

1af – Efa Fflur – Ysgol Llanllechid
2il – Efa Hughes – Ysgol Llanllechid
Cydradd 3ydd – Mia Brake – Ysgol Llanllechid a Nanw Branwen Glyn – Ysgol Abercaseg

Llefaru Blynyddoedd 3 a 4

1af – Eban Llwyd Hughes – Ysgol Llanllechid
2il – Evie Nyirenda – Ysgol Llanllechid
3ydd – Alaw Williams – Ysgol Llanllechid

Unawd Blynyddoedd 3 a 4

1af – Evie Nyirenda – Ysgol Llanllechid
2il – Beti Allsup – Ysgol Llanllechid
3ydd – Enfys Williams – Ysgol Llanllechid

Llefaru Blynyddoedd 5 a 6

1af – Llio Evans – Ysgol Pen y Bryn
2il – Erin Roberts – Ysgol Llanllechid
3ydd – Mali Non – Ysgol Pen y Bryn

Unawd Alaw Werin Blwyddyn 6 ac iau

1af – Gruffudd Iwan, Caernarfon
2il – Elsi Allsup – Ysgol Llanllechid
3ydd – Mali Non – Ysgol Pen y Bryn

Unawd Blynyddoedd 5 a 6

1af – Elsi Allsup – Ysgol Llanllechid
2il – Owain Bishop – Ynys Mon
3ydd – Efa Gwen ac Erin Roberts – Ysgol Llanllechid

Unawd Cerdd Dant Bl.6 ac iau

1af – Gruffudd Iwan – Caernarfon
2il – Elsi Allsup – Ysgol Llanllechid
3ydd – Efa Gwen ac Efa Hughes – Ysgol Llanllechid

Parti Llefaru Ysgol Gynradd

1af – Ysgol Llanllechid
2il – Ysgol Tregarth

Unawd Offerynnol Blwyddyn 6 ac iau

1af – Iwan Honeyset – Ysgol Llanllechid
2ail – Elin Burnell – Ysgol Llanllechid
3ydd – Elsi Allsup – Ysgol Llanllechid

Unawd Piano Blwyddyn 6 ac iau

1af – Eban Hughes – Ysgol Llanllechid
2il – Efa Hughes – Ysgol Llanllechid
3ydd – Mati Wyn – Ysgol Llanllechid

Côr/Parti Blwyddyn 6 ac iau

1af – Ysgol Llanllechid
2il – Ysgol Tregarth

Grŵp Dawnsio Disgo/Hip Hop Blwyddyn 6 ac iau

1af – Ysgol Llanllechid

Dawnsio Disgo Unigol Blwyddyn 6 ac iau

1af – Lili Herbert – Ysgol Llanllechid
2il – Efa Owen – Ysgol Llanllechid

Tarian Perfformiad Gorau am Lefaru

Eban Hughes – Ysgol Llanllechid

Tarian Perfformiad Gorau Cerddorol

Elsi Allsup – Ysgol Llanllechid

LLENYDDIAETH YSGOLION CYNRADD Y DALGYLCH Stori

1af – Arthur Evans – Ysgol Llanllechid
2il – Elain Owen – Ysgol Llanllechid
3ydd – Elsi Allsup – Ysgol Llanllechid

Cerdd

1af – Efa Owen – Ysgol Llanllechid
2il – Elsi Allsup – Ysgol Llanllechid
3ydd – Ela Evans – Ysgol Llanllechid



Tarian Perfformiad Gorau am Lefaru Eban Hughes, Ysgol Llanllechid.



Grŵp Dawnsio Hip Hop Blwyddyn 6 ac iau 1af - Ysgol Llanllechid

Rachub a Llanllechid

Emlyn Williams, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE
(07887624459) henbarc13@gmail.com

Clwb Hanes Rachub

Mynwentydd Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau.

Daeth André Lomozik draw i'r Clwb Criced yn ddiweddar, i sôn am rai cerrig beddi hynod ddiddorol a ddarganfu wrth grwydro mynwentydd yr ardal. Mae André yn hanesydd tu hwnt o brysur, yn ymchwilydd a chofnodwr heb ei ail, a diolchwyd iddo gan Dilwyn Pritchard am ei ran flaenllaw gyda'r criw a fu'n trefnu arddangosfa 50 mlwyddiant Llais Ogwan.

Mae 12 mynwent yn yr ardal, a darganfuwyd hanesion diddorol ym mhob un ohonynt. Roedd lluniau o gerrig beddi 'gwahanol' gan André ar y sgrin, yn ogystal â lluniau o rai o'r cymeriadau eu hunain. Cafwyd rhywfaint o hanes y cerddor 'Asaph Bethesda' a gladdwyd ym mynwent Sant Cedol ym Mhentir, a'r angladd mawreddog a gafodd – gyda'r mwyaf a welwyd erioed yn yr ardal! Cyfeiriwyd at y llenor a'r pregethwr E. Tegla Davies, awdur 'Nedw' a 'Hunangofiant Tomi' a gladdwyd yn y Gelli, Tregarth, yn ogystal â Huw Derfel Hughes (taid Syr Ifor Williams) awdur 'Hynafiaethau Llandygai a Llanllechid'. Yn St. Anne's ceir bedd Edwyn Cynrig Roberts, gŵr a aeth i Batagonia bell er mwyn

gwneud paratodau ar gyfer criw'r 'Mimosa', bedd William Hugh Williams is-lywydd Undeb y Chwarelwyr, a William Jones druan, prifathro Ysgol Tŷ'n Tŵr a fu farw yn 36 oed wedi gwaeledd hir. Ym Methlehem Talybont, claddwyd yr enwog gerddor a phregethwr, Tanymarian, ac ynghanol y cannoedd yng Nghoetmor, mae bedd bychan Beti Wyn, sef merch fach y bardd J.T. Jôb. Mae hanes Eglwys Robertson yn eithaf unigryw, gan fod teulu gŵr ifanc a fu farw wedi damwain ar y Glyder Fach, wedi talu i godi'r eglwys er cof amdano. Mae carreg fedd Donald Robertson yn wynebu'r Glyder Fach – cyfeiriad hollol wahanol i weddill y beddau. Yno hefyd mae beddau Syr Idris Foster a Caradog Pritchard, tra bod bedd y cerddor R. S. Hughes ym mynwent Eglwys Glan Ogwen.

Dim ond lle i ychydig o'r hanesion sydd yma – roedd llawer mwy gan André!

Diolch André am y sgwrs hynod ddifyr, ac am y gwaith diflino yn casglu a chofnodi hanes y Dyffryn.

Ni fydd cyfarfod ym Mis Rhagfyr, ond bydd Mr Dafydd Fôn yma ar y 29ain o Ionawr, 2025 yn trafod 'Hen Ddaliadau ac Enwau Lleoedd'. Nadolig Llawen a heddychlon iawn i bawb!

Capel Carmel

Rydan ni'n anfon ein cofion at rai sydd heb fod mewn iechyd da'r dyddiau yma. Dymuniadau da i Mr Gareth Jones Tan-y-Garth gan obeithio ei fod yn cryfhau ac yn gwella yn ara deg.

Cofion at Mrs Glenys Edwards sydd yng nghartref preswyl Plas Ogwen a Miss Deila Griffith sydd yng nghartref nyrsio Plas Marl, Cyffordd Llandudno.

Gwasanaethau (am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol)

Rhagfyr 22: Gwasanaeth y Plant a'r Bobl Ifanc.

Rhagfyr 25: Gwasanaeth Bore Nadolig am 10.00yb. Croeso i bawb.

Rhagfyr 29: Parchg. Dafydd Coetmor Williams.

Ionawr 5: Parchg. John Pritchard.

Ionawr 12: Oedfa.

Ionawr 19: Parchg. R. O. Jones.

CROESO CYNNES I BAWB

Clwb Gwau Carmel

Bu'r merched yn gwau plancedi, capiau a sgarffiau ar gyfer elusen 'Plentyn y Nadolig' yn ôl eu harfer ers blynnyddoedd bellach. Mi gawsom ni gyfle i ddangos yr holl waith a gafodd ei wneud drwy gynnal arddangosfa yn y capel dros y penwythnos ac ar ddydd Llun y Te Bach. Roedd y gwaith i gyd yn werth ei weld. Diolch i bawb am wau mor ddiwyd gan gynnwys y cyfeillion hynny nad ydyn nhw'n dod i'r Clwb Gwau eu hunain.

Dyma rai o ferched y Clwb Gwau gyda chyfeillion o'r Te Bach yn y Capel yn ystod yr arddangosfa.



Nid yw Jean Hughes Glanrafon yn anfon cardiau Nadolig flwyddyn yma ond mae hi yn dymuno Nadolig llawen a Blwyddyn Newydd dda i bawb.



Cyngor Cymuned Llanllechid

Cynhalwyd cyfarfod Mis Tachwedd yn Ffestri Capel Bethlehem, Talybont ar Nos Fercher 13fed o Dachwedd. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Y Cyngorydd Lowri Evans.

Ma hi wedi bod yn fis positif iawn ym mhlwyf Llanllechid.

Mae'r Cyngor Cymuned yn falch o adrodd fod rhan isod Mynwent Llanllechid wedi ei thorri. Trefnwyd torri y gordyfiant ar ôl nifer

o gwynion gan blwyfolion a theuluoedd. Mae hanes yn fynwent yn un diddorol, gyda llenyddwyr a cherddorion wedi ei claddu yno.

Newyddion da arall yw bod y goeden fawr oedd wedi syrthio ar lwybr cyhoeddus Tan y Marian wedi ei chlirio o'r diwedd. Ac hefyd giat newydd wedi ei gosod ar lwybr cyhoeddus Eglwys y Groes.

Ar ôl peth amser, mae 'chevrons' rŵan wedi eu lleoli wrth gornel Maes y Groes. Cafwyd nifer o adroddiadau am geir yn cael damweiniau ar y gornel hon. Fel cyngor cymuned rydym wedi brwydro i geisio gwneud y gornel hon yn fwy diogel i deithwyr.

Nadolig llawen iawn i bawb, a blwyddyn newydd dda.



YSGOLION ABERCASEG A PHEN-Y-BRYN



PEN Y BRYN

Diwrnod Clefyd Siwgr y Byd

I godi ymwybyddiaeth ar ddiwrnod clefyd siwgr y byd, daeth pawb i'r ysgol yn gwisgo glas a chawsom gyflwyniad arbennig llawn gwybodaeth bwysig gan Evangeline ac Ayla. Diolch yn fawr i chi genod am eich ymdrech a chyflwyniad aeddfed.

Eisteddfod Dyffryn Ogwen

Llongyfarchiadau mawr i bawb a gafodd wobwr ar y llwyfan ac yng nghystadlaethau gwaith cartref yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Rydym yn falch iawn ohonoch.

Pel Rwyd

Ar y 28ain o Dachwedd, fe aeth 2 dîm pêl-rwyd blwyddyn 5 a 6 draw i Ganolfan Brailsford ym Mangor i chwarae yng nghystadlaethau yr Urdd. Fe wnaeth bob un ei orau glas gan gydweithio'n wych fel tîm.

Pythefnos 3P

Profiadau, Pwerau Dysgu a Pedwar Diben. Do, fe gafodd holl blant Ysgol Penybryn profiadau fythgofiadwy unwaith eto eleni.

Bu'r disgyblion yn brysur yng Nghanolfan Conwy yn gwneud amrywiaeth o weithgareddau dwr amrywiol, yn Lerpwl yn yr Amgueddfa Caethwasiaeth a'r Beatles, ac ym Mhentref Peryglon i enwi rhai o'r ymweliadau. Wrth gwrs, roedd rhaid defnyddio llawer o'r pwerau dysgu yn ystod y pythefnos, wrth ddysgu am ddiogelwch dwr, ymlacio gyda Beca yn y bath gong, yn dawnsio, yn creu cerddoriaeth gyda DJ Endaf, yn dysgu am swyddogaeth dynion tân a llawer mwy. Yn ogystal, bu'r plant yn cael gwrsi iechyd a lles ble roedd y pwyslais ar eu datblygu'n unigolion iach, hyderus, mentrus a chreadigol, yn egwyddorol a gwybodus ac yn uchelgeisiol a galluog. Diolch o galon i bawb a gyfrannodd at lwyddiant pythefnos 3P, bydd y plant yn siŵr o drysori'r holl atgofion am amser hir.

Bocsys Nadolig T4U

Diolch yn fawr iawn i bob un a oedd mor hael, wedi llenwi bocsys sgidiau yn llawn anrhegion ar gyfer T4U. Diolch am feddwl am eraill dros adeg y Nadolig.



YSGOL ABERCASEG

Wel am hanner tymor llawn dop! Mae'r plantos bach wedi bod yn hynod o brysur ac wedi mwynhau pob eiliad!

Trip i Pili Palas

Wel am ddiwrnod bendigedig. Mae'r plant wrth eu boddau yn cael ymweld â Phili Palas, roedd cael addurno'r bisgedi cyn cael anrheg gan Siôn Corn yn arbennig. Diolch i staff Pili Palas am y croeso.

Eisteddfod Dyffryn Ogwen

Hoffewm longyfarch pob un o'r plant fuodd wrthi'n ddiwyd yn dysgu eu gwaith ac yn ddigon dewr i gymryd rhan ar lwyfan

enfawr Ysgol Dyffryn Ogwen. Mi ganodd Enya yn wych ac fel lwyddodd i gipio'r ail wobwr - arbennig a hithau mor ifanc.

Yn wir, mae llu o artistiaid yma'n Abercaseg. Cafodd nifer o'r plant, o oed Meithrin hyd at Flwyddyn 2 lwyddiant gyda'i gwaith arlunio. Rydym yn edrych ymlaen yn arw i'w harddadngos yn yr Ysgol.

Plant Mewn Angen

Roedd y plant wrth eu boddau yn cael gwisgo fel eu hoff archarwr a hynny er mwyn codi arian at blant mewn angen. Roeddent werth eu gweld ac yn mwynhau addurno bisgedi Pudsey. Er mwyn sicrhau

fod yr archarwyr yn aros yn heini mi redodd yr Ysgol o amgylch y trac rhedeg. Da iawn blantos am gyfrannu tuag at achos mor deilwng.

Cinio Nadolig

Mae'n saff i ddweud fod pawb yn llawn yn dilyn cinio Nadolig bendigedig gan Anti Marian ac Anti Nerys eto eleni. Roedd y plant wrth eu boddau yn mwynhau'r wledd yn eu siwmperi Nadolig.

Ffair Nadolig

Cynhaliwyd y Ffair yn Ysgol Pen y Bryn eleni ac roedd y Neuadd werth ei gweld. Wrth gwrs, uchafbwynt y noson oedd cel gweld y dyn ei hun, Siôn Corn. Roedd o wedi dotio gyda'r

plant i'r fath raddau nes iddo benderfynu dod draw i Ysgol Abercaseg i ddsbarthu llyfrau. Diolch yn arbennig i'r Cyfeillion am eu hymdrechion cyn y Ffair ac ar y noson.

Cyngerdd Nadolig

Mae'r ymdrech a'r ymroddiad sydd yn mynd i mewn i gynnal sioe Nadolig gan y plant yn anhygoel. Cawsom berfformiad gwefreddiol unwaith eto eleni gyda chanu'n codi'r to. Roedd hi'n braf iawn cynnal y sioe Nadolig yn yr Ysgol eleni.

Diolch i'r staff am eu holl waith caled yn ystos yr hanner tymor. Edrychwn ymlaen at seibiant dros y Nadolig i baratol at hanner tymor gwerth chweil arall.

Bryswich Wella

Gyrrwn ddymuniadau gorau at Ann Williams, Stryd y ffynnon, sydd wedi cael llawdriniaeth yn yr ysbyty yn Walton. Dan ni'n deall dy fod wedi bod trwy amser anodd Ann ond yn gobeithio dy fod yn dechrau gweld y golau. Cofion cynhesaf a gwellhad buan i ti.

Penblwydd Hapus

Roedd dathlu mawr yn Stryd Hir yn ddiweddar wrth i Michelle Florence gael pen-blwydd arbennig. Gobeithio dy fod wedi cael dy sbwylio gan Ricky a'r hogia', teulu a ffrindiau.

Un arall fu'n dathlu oedd Ithel Morris yn Tan y Garth. Roedd Ithel yn cael ei ben-blwydd yn 21. Pob dymuniad da i dithau hefyd.

Ultra Gaeaf Pen Llyn

Llongyfarchiadau mawr i Aled Jones, Stryd Goronwy, a gymrodd ran yn ei farathon "ultra" cyntaf ym Mhen Llyn ym mis Tachwedd. Llwyddodd Aled i redeg 62km (38.8 milltir) o arfordir i arfordir a dros 5000 o droedfeddi o ddringo ar draethau, mynyddoedd, caeau, lonydd, llwybrau arfordir a choedwigoedd. Dipyn o gamp gwneud hynna mewn 6 awr a 55 munud. Ymlaen at y nesaf rŵan Aled - ar ôl cael hoe fach!

Dyweddïo

Llongyfarchiadau mawr i Mari Davies, Tŷ Dŵr, ar achlysur ei dyweddïad efo Tim Riley. Mae Mari a Tim wedi bod yn byw am gyfnod yn Melbourne lle bu Mari'n gweithio fel meddyg. Maent wedi bod yn teithio'r byd ar eu ffordd nôl adra ac roeddent yn cerdded yn yr Himalayas pan ddaeth Tim a'r fodrwy allan! Siwrne saff i chi adra a phob dymuniad da i chi ar y cyfnod nesaf yn eich bywyd yn Llundain.



Babi newydd Gwernydd

Erbyn hyn mae enw i'r babi newydd yn Gwernydd, merch i Sion Glyn ac Elinor. Croeso ffurfiol felly i Anest Lloer Glyn - mae hi werth y byd!

Partneriaeth Ogwen

Prosiect Dychmygu'r Dyfodol

Dros ddau ddydd Sadwrn ym mis Hydref ddaru grŵp o bobl ifanc y Dyffryn gyfarfod gyda grŵp o Flaenau Ffestiniog fel rhan o brosiect newydd - Dychmygu'r Dyfodol, sydd yn cael ei redeg gan Bartneriaeth Ogwen, GISDA ac Economi'r Bobl. Pwrpas y prosiect yw darganfod teimladau a barn pobl ifanc yr ardal am eu dyfodol a beth sydd angen ei newid er mwyn iddynt aros yn Nyffryn Ogwen yn y dyfodol.

Fel rhan o'r prosiect, ddaru criw Bethesda a Blaenau ddot at ei gilydd i ddychmygu eu dyfodol mewn ffurf greadigol megis lego â chlai, a chreu map o'u dehongliad nhw o sut y bydd y ddwy ardal yn edrych a theimlo

mewn 10 mlynedd.

Ym mis Tachwedd cawsom gyfle i adrodd yn ôl at gynghorwyr lleol a phobl busnes yr ardal. Mae'n hollbwysig i ni ac i'n pobl ifanc bod eu lleisiau'n cael eu clywed gan y rhai sydd mewn sefyllfa i wneud gwahaniaeth i'w dyfodol. Roedd yn wych gweld y bobl ifanc yn trafod eu pryderon gyda'r rhai a ddaeth i'r cyfarfod, roeddent yn ei werthfawrogi'n fawr.

Diolch i'r rhai ddaeth i'r cyfarfod, am wrando ar deimladau'r grŵp ac am drafod y ffurf i wella'r sefyllfa. Diolch hefyd i'r bobl ifanc a roddodd eu hamser ac egni i ni a'r prosiect - Sion, Freda, Gwen, Nia, Ffion, Aled a Jay o Ysgol Dyffryn Ogwen.



Prosiectau Celf Gymunedol Nadolig

Wrth i chi gerdded i fyny Stryd Fawr Bethesda yn edmygu'r addurniadau Nadolig - efallai y sylwch ar gyfraniad Partneriaeth Ogwen i Wyl Angylion y Caplan Bro. Crëwyd yr angylion hardd lliwgar hyn ar gardbord wedi'i ailgylchu mewn gweithdai a gynhaliwyd gyda Chlwb leuenticid Dyffryn Ogwen. Bu'r artist lleol Nader Kohbodi (Mr Kobo) yn ddigon caredig i wirfoddoli ei amser a'i arbenigedd i gynnal gweithdy chwistrellu paent gyda'r Clwb, a chafodd yr angylion eu hunain eu torri allan gan ddefnyddio torrwr laser Gofod Gwneud gan Jo Hinchliffe. Diolch i bawb a gymerodd ran - mae'r angylion i gyd yn unigryw o hyfryd!

Bu Nader hefyd yn helpu'r Clwb leuenticid i addurno dwy seren fel rhan o Arddangosfa Sêr Cymunedol Castell Penrhyn. Bydd y sêr yn cael eu harddangos ar dir y castell trwy gydol mis Rhagfyr, felly chwiliwch amdanyh nhw os ydych chi yn yr ardal!



Siop Ogwen

Mae Siop Ogwen yn falch i gyhoeddi oriau agor newydd estynedig, diolch i ymroddiad ein gwirfoddolwyr anhygoel, Parker a Ceri. Mae eu gwaith caled yn sicrhau bod y siop yn gallu gwasanaethu'r gymuned yn well yn ystod y tymor prysur y Nadolig. Wrth i'r Nadolig agosáu, rydym yn annog pawb i gefnogi busnesau a chrefftwyr lleol sy'n gwerthu eitemau yn Siop Ogwen. Drwy siopa'n lleol, rydych chi nid yn unig yn dod o hyd i anrhegion unigryw a chynhyrchion o ansawdd ond hefyd yn helpu i gynnal calon ein cymuned. Dewch draw i'n gweld ni - holwch Parker am awgrymiadau llyfrau, ac edrychwch allan am grefftau Ceri yn y siop!

Dyffryn Caredig

Gwaith cludiant y prosiect wedi cael mis prysur arall yn cludo trigolion hwnt ac yma ar hyd a lled y dyffryn ac ymhellach. Esiamlau o hynny oedd darparu cludiant ar gyfer cinio arbennig yng Nghlwb Rygbi Bethesda i aelodau Clwb Heini Dementia Actif ac ar gyfer sesiwn 'Byw'n Iach, Byw'n Dda' yng Nghanolfan Tennis Arfon - cyfle'i flasu llu o weithgareddau a chael cyngor ar gyfer trigolion 50+. Gyda sawl cymuned yn ei chael yn anodd teithio'n y Dyffryn rydym yn falch iawn fel Partneriaeth ein bod yn galluogi'n cymdodion i fynychu digwyddiadau a chefnogi achlysuron fel hyn yn ogystal a chludiant ar gyfer apwyntiadau a hamddena.

Bu'r Dyffryn Caredig hefyd yn brysur ar fore oer braf yng nghanol Tachwedd yn croesawu Rali EV Cymru i Ganolfan Cefnfaes. Be' oedd hynny medda' chi? Wel, deg ar hugain o gerbydau trydan oedd wedi teithio'r diwrnod cynt o'r de'i Fangor. Ar ol iddynt aros dros nos ym Mangor a Chaernarfon y 'checkpoint' cyntaf oedd Canolfan Cefnfaes. Digwyddodd



hyn gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru ac mae'r ffaith i'r trefnwyr ddewis ymweld a ni'n dystiolaeth o le blaenllaw'r Bartneriaeth a'i chefnogwyr ran ynni a chludiant gynaliadwy. Roedd yn ardderchog gweld disgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen yn sgwrsio gyda a holi tri deilydd record byd Guinness am yrru cerbydau trydan a chael y cyfle i weld ceir trydan newydd sbon, gan gynnwys dau nad ydynt wedi'u rhyddhau eto! Edrychwch ymlaen at groesawu'r Rali'n ôl yn 2025.

Beics Ogwen

Yn ystod yr wythnosau diwethaf bu Kyle yn brysur yn gweithio gyda Chris o GwyrddNi ar ddatblygu beiciau fydd yn gwefru sustem sain. Y syniad ydi bod dau feic ochr yn ochr gyda reidwyr yn creu digon o egni'i bweru desg gerddoriaeth fydd yn gyfle'i ddisgyblion a cherddorion lleol brofi ffordd newydd o greu - mwy o fanylion yn rhifynnau nesaf y Llais!

Adeiladu beiciau dolig

Tybed fydd Siôn Corn yn danfon beic acw a hwnnw mewn boc ac angen ei osod at ei gilydd? Na phoenwch os nad oes gennych amser (na choblyn!) acw'i adeiladu'r ceffyl haearn, cysylltwch a ni ar 07394906036 neu ar y gweplyfr am gymorth. 'Dolig Llawen!



Mark Davies

07447804110



Gwasanaethu
Prawf Nwy
Prawf Trydanol
Prawf Tamprwydd
Atgyweirio
Siasis a Breics

mark@mdcaravans.cymru



Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr Bangor Gwynedd

(01248) 370224

Ar gyfer eich holl anghenion
cyfreithiol

Gwasanaeth dwyieithog personol
a chyfeillgar

Swyddfeydd eraill:

Llangefni | Porthaethwy | Benllech
(01248) 723106 | (01248) 719517 | (01248) 852782

Caernarfon | Pwllheli
(01248) 673616 | (01758) 703000




Cacennau, Peis a Sawrus
Te Prynhawn a Bwffe ar gael

@CeginKaren Tel: 07886 560781
Ebst / Email: ceginkaren@btinternet.com



CHRIS GRIFFITHS CYF



Trwsio ffenestri upvc,
drysau, cloeau, bachau,
twll llythrau ac unedau
gwydr wedi chwythu

18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369
neu 07813 455653

Côr y Penrhyn

gyda Derfel Roberts



Un o gorau prysuraf Cymru

O dan arweiniad Owain Arwel, y cerddor egnïol a mentrus, mae'r côr enwog o Ddyffryn Ogwen wedi torri tir newydd ac arloesol mewn sawl cyfeiriad meddai Derfel Roberts, un o gyn-aelodau'r côr.



Owain Arwel a arweinai'r côr yn y cynhyrchiad o Lluch a Llechi prosiect chwyldroadol Gwen Siôn.

Un o'r meysydd arosol hynny oedd cyflwyniad o'r enw '**Lluch a Llechi**' yng Nghaerdydd yn ddiweddar.

Yn Llais Ogwan y mis diwethaf soniwyd am ymweliad y côr â Chaerdyddi i ganu yng nghanolfan y Mileniwm. Dywedodd y trefnwyr beth oedd y tu ôl i'r cynhyrchiad newydd a gwahanol hwn.

Rhan o'wyl Llais 2024 oedd premiere Lluch a Llechi a gynhaliwyd ar 13 Hydref.

Prosiect clyweledol byw ar gyfer neuaddau cyngerdd gan y cyfansoddwr a'r artist amlddisgyblaethol Gwen Siôn oedd LLWCH A LLECHI. Roedd y prosiect yn archwilio'r cysylltiadau rhwng cerddoriaeth, tirwedd, traddodiad a defod. Roedd yn cael ei berfformio'n fyw gan ddeg cerddor o Gerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC a Chôr y Penrhyn, un o gorau hynaf Cymru a Gwen yn chwarae offerynnau electroneg byw. Roedd Gwen yn defnyddio amryw o ddyfeisiadau gan gynnwys ei hofferynnau arbrolol ei hun sydd wedi eu creu â llaw ganddi o ddeunyddiau naturiol, fel llechi, derw ac yw yn bennaf.

Chwareli Llechi'n ysbrydoli

Roedd y prosiect yn cyfuno elfennau o gerddoriaeth electronig arbrolol. Ymhlith y darnau clywid cyfansoddiadau cerddorfaol cyfoes, cyfansoddiadau corawl (wedi'u seilio'n benodol ar draddodiad dosbarth gweithiol corau meibion chwareli'r Gogledd), recordiadau maes a delweddau symudol, gan gynnwys lluniau archif trwy gydweithrediad Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru.

Cyfansoddwyd Lluch a Llechi yn dilyn cyfnod o ymchwil helaeth i chwareli llechi'r Gogledd a chafodd Gwen Siôn ei hysbrydoli gan fotifau llên gwerin, hanesion cymdeithasol wleidyddol, y dreftadaeth ddiwydiannol a'r cydberthynas diwylliannol rhwng cerddoriaeth a thirwedd, Un o ardal Bethesda a Rachub yw Gwen felly mae ganddi ddi-ddordeb byw yn hanes a datblygiad y traddodiad gwerin mewn lleoedd fel hyn. Ceiswyd dangos bod gwreiddiau dyfnach hynny yn nhraddodiad llafar Celtaidd Cymru.

Yn greiddiol i'r gwaith mae hunaniaeth y tirwedd, a chaiff y mynyddoedd a'r chwareli eu hadlewyrchu mewn gwahanol ffyrdd trwy gydol y darn.

Serch hynny, yn y chwareli y datblygodd diwylliant y 'caban' - cwt bach lle byddai'r chwarelwyr yn cymryd egwyl o'u gwaith ac yn ymgynnull i ganu, adrodd barddoniaeth, cynhyrchu offer llaw, cerfio dyluniadau, trafod gwleidyddiaeth y dydd ac adrodd straeon - lloches greadigol lle byddai tirwedd, crefft a cherdoriaeth yn cydgyfarfod i gynnig ennyd o noddfa rhag y peryglon eithafol a wynebai'r gweithwyr yn eu byd gwaith bob dydd.

Ganed corau'r chwareli llechi yn y cabanau a chyfrannodd y nerth a ddeuai o gymryd rhan yn y weithred o gydganu corawl at atgyfnerthu'r cymunedau hynny. Mae meddwl am ganu mewn perthynas â'r anadl ac effaith gadarnhaol canu ar iechyd a lles meddyliol a chorfforol y

Llwyddiant Eisteddfodol

Daeth y côr i'r brig yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen eleni a dymuna pawb longyfarch yr aelodau, yr arweinudd a'r cyfeilydd am eu camp. Mae Côr y Penrhyn wedi cystadlu a chefnogi'r eisteddfod leol yn gyson dros y blynyddoedd oherwydd, "mae bod yn bresennol yn yr ŵyl yn fraint," meddai Walter Williams, un o aelodau ffyddlonaf y côr.

Dyma enghraifft bellach o'r côr yn cynnal traddodiadau gorau'r genedl, yn ogystal â mentro i gymryd rhan mewn prosiectau newydd a dieithr fel Lluch a Llechi yng Nghaerdydd.



Rhai o aelodau Côr y Penrhyn yn dathlu llwyddiant y côr yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen ym Mis Tachwedd. Yn y llun gwelir Walter Williams, Tom Williams, Eilir Jones, Michael Williams (sy'n dal tlws y buddugwyr) a Rheinallt Davies. Yn y cefn mae Brynmor Jones, Maldwyn Pritchard a Rheinallt Puw.

cymunedau hyn yn arbennig o ingol o ystyried y lefelau uchel o lygredd aer, clefydau anadlu a marwolaethau.

Derbyniodd Lluch a Llechi gefnogaeth hael gan gyrff megis Cyngor Celfyddydau Cymru a nifer o gyrff eraill.

Carolau ym Mae Colwyn

Gyda'r Nadolig yn nesáu mae galw ar y côr i fynd i ganu carolau mewn sawl man. Mae gwasanaeth o'r fath yn hen draddodiad yng Nghôr y Penrhyn gan fod yr aelodau wedi cymryd rhan mewn gwasanaethau i godi arian at elusennau mewn lleoedd mor amrywiol â Chapel Jerusalem, Tesco Bangor a Chartref Henoed Plas Ogwen a hynny'n flynyddol ers cyn cof.

Ar nos Sul 1 Rhagfyr profiad newydd i aelodau'r côr oedd cael mynd i Eglwys St. Ioan ar safle Ysgol Rydal ym Mae Colwyn i gymryd rhan mewn gwasanaeth carolau oedd yn cael ei recordio gan 'Christian Radio'. Dewisodd y côr ddwy garol Gymraeg o'u rhaglen i ganu o flaen y gynulleidfa sef 'O Faban Glân' a 'Ganol Gaeaf Noethlwm'.

Rhoddodd y côr berfformiad oedd yn cael ei ganmol i'r eithaf gan yr artistiaid eraill a chan y gynulleidfa niferus a ddaeth yno i gyd ganu nifer o garolau eraill. Meddai Emyr Roberts sy'n aelod o'r ail denoriaid,

"Braf oedd cael mynd i le newydd i ganu a chymryd rhan mewn gwasanaeth mor gynnes a chroesawus".

Cymeriadau'r Côr

Cyfres yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn. Yr aelod y mis hwn yw Eilir Jones o Lanllechid/
Be' ydy dy enw llawn? – Eilir Jones

Oed? – (dewisol). - 47

Gwaith – Rheolwr Project i gwmni Read Construction o Wrecsam – edrych ar **ôl** amrywiaeth o brosiectau adeiladu newydd yn cynnwys ysgolion, colegau, ysbytai ac yn y blaen.

Lle wyt ti'n byw? – Llwyn Penddu Isaf, Lanllechid

Un o lle wyt ti'n wreiddiol? – dipyn o sipsiwn! Fy Nhad a mam o Ben Llŷn a mi fuon ni'n byw yn Wrecsam am flwyddyn gyntaf fy mywyd. Symud i Lanfairfechan a Bangor o 8 oed ymlaen, Caerhun yn 2003 a symud wedyn i Lanllechid yn 2006.

Pa dri pheth fasai'n dy ddisgrifio orau? Gweithgar, cymwynasgar a mwynhau bywyd.

Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr? Newydd ymaelodi ym mis Ionawr eleni.

Pa lais wyt ti? Tenor 2.

Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn? Wedi bod yn bygwth ymaelodi ers dwy neu dair blynedd, wedyn amgylchiadau personol yn caniatâu mwy o amser rhydd, a Wil Parry a Rheinallt Davies yn troi fy mraich yn y George dros y Nadolig llynedd!

Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr? 'Mor Fawr Wyt Ti' a 'Gwinllan a Roddwyd'

Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores? Anodd dewis un, ond dwi'n hoffi amrywiaeth gan gynnwys Bryan Adams, Coldplay, Jacob Elwy a'i gân am 'Aberdaron' a 'Brigyn yn y Dŵr'

Beth ydy dy farn di am ganu pop? Hoffi amrywiaeth gwahanol ac o ddegawdau gwahanol, er nad ydy Efa a Lois, y genod acw, yn cytuno efo fy chwaeth i chwaith – cenedlaeth wahanol a pawb â'i chwaeth ydy hi mae'n siŵr.

Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo'r côr? Wedi bod mewn aml gyngerdd, ond fel aelod newydd ddim wedi bod ar

nifer fawr o dripiâu. Ond roedd yr Ŵyl Ban Geltaidd yn Carlow, Iwerddon, ddechrau'r flwyddyn eleni yn bendant yn sefyll allan - awyrgylch a chanu anfarwol yn y tafarndai ar ôl y cystadlu.

Pa ddiddordebau eraill sydd gen ti y tu allan i'r côr? Hel hen beiriannau, trafelilio, hwyllo, rygbi, sgio ac wedi dechrau cerdded mynyddoedd o ddifri ers blwyddyn. Wrth fy modd yn cerdded mynyddoedd Eryri ac Ardal y Llynnoedd, ac wedi cael cerdded mynyddoedd anfarwol y Dolomites yn yr Eidal dros yr haf hefyd.

Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud? Edrych ymlaen at gael mynd i Ganada efo'r côr ym mis Awst, a hefyd gobeithio bod y côr yn cael 'yr alwad' yn y dyfodol agos i ganu'r anthem yn Stadiwm y Principality - breuddwyd oes.

Unrhyw sylw arall yn ymwneud â'r côr? Fel aelod newydd ac ymlith un o'r rhai ieuengaf, mi fasai'n braf cael gweld mwy o rai fengach yn dod atom i wneud yn siwr fod dyfodol cryf i'r côr. Mi gawson ni noson agored yn y clwb rygbi yn ddiweddar ac mi ddaeth ambell un newydd, ond dwi'n i'n siŵr fod mwy fel fi sydd wedi cysidro dod a dim ond angen yr ysgogiad bach olaf na! Os dach chi'n gwybod am rywun yn yr un sefyllfa, rhowch yr ysgogiad 'na iddyn nhw – dim byd i'w golli a phopeth i'w ennill!



SIÂN GWENLLIAN

AELOD O'R SENEDD DROS ARFON

CYSYLLTWCH:

✉ sian.gwenllian@senedd.cymru

☎ 01286 672 076

📍 70 Stryd Fawr, Bangor

 Senedd Cymru
Welsh Parliament



Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus

SAMARIAID

Gogledd Orllewin Cymru

Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando

Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos

0808 164 0123

Gwefan: www.samariaidbangor.cymru



DIOLCH

i drigolion yr ardal am bob cefnogaeth a chymorth trwy gydol y flwyddyn

POB HAPUSRWYDD A LLEWYRCH I
CHI DROS GYFNOD Y NADOLIG
A'R FLWYDDYN NEWYDD
GAN Y CYNGHORWYR:



Beca Roberts
Tregarth & Mynydd
Llandygaï



Paul Rowlinson
Rachub



Rheinallt Puw
Canol
Bethesda



Dafydd Meurig
Arllechwedd



Einir Wyn Williams
Gerlan

🐦 @Plaid_Gwynedd 📘 @PlaidCymruGwynedd
www.plaidgwynedd.cymru

Llandygái

Iona Wyn Jones, 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU (01248 354280) ionawynbangor@gmail.com

Eglwys Sant Tegai

Nadolig Llawn!

Fel cynulleidfa, hoffem ddymuno Nadolig Llawn i bawb yn Nyffryn Ogwen. Boed bendith yr Ŵyl ar eich teuluoedd a'ch cartrefi.

Diolchiadau

Hoffem ddiolch i'r Parch Sara Roberts am ei pharodrwydd i arwain y gwasanaethau yn St Tegai yn ystod gwaeledd y Parch Ddr Gareth Lloyd. Mae Sara wedi cymryd y gwaith ychwanegol yma ymlaen gydag egni a sirioldeb. Diolch Sara, gwerthfawrogn yn ymroddiad i'r eglwys yn enwedig yn ystod tymor prysur y Nadolig. Rydym hefyd yn ddiolchgar i Christine Edwards o Eglwys Crist Glanogwen am chwarae'r organ tra mae Geraint Gill, ein organydd, yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty ac adref.

Ffilm yng nghanolfan Pontio

Ar Dachwedd 6ed daeth lluo o bobl i ganolfan Pontio Bangor i wylio ffilm ddogfen wych ar fywyd a gwaith y cyfansoddwr William Matthias, "Welsh

and Proud". Cyfarwyddwyd y ffilm gan Daniel Bezkorowajny sydd yn fab i Rachel Tombs, aelod o'n cynulleidfa. Dilynwyd y rhaglen gan sesiwn cwestiwn ac ateb gyda Daniel a Rhiannon, merch William Matthias. Diolch Daniel am noson mor ddifyr a ddiddorol!

Medal 'Prawf Niwclear'

Dymuna Peter Bullen o'r pentref ddiolch i John Bagnall ac Edmond Douglas Pennant am eu gwaith ymchwil i sicrhau fod medal y Brenin "Prawf Niwclear" yn cael ei chyflwyno i berthynas iddo am ei wasanaeth ar Ynys y Nadolig yn y 1960au. Mae'r gwaith peryglus yma a'r gweithwyr wedi eu hanwybyddu am ddegawdau gan yr awdurdodau. Braf yw gweld cydnabyddiaeth teilwng.

Prosiect Atgyweirio'r Clochdy

Fel y gwyddoch, cwblhawyd wythnos o waith trwsio'r tô gan gwmni rhaffau arbenigol o Fethesda. Y gost fydd dros £9000 am hyn yn unig. Bydd angen caniatâd eto gan yr esgobaeth i barhau gyda llawer mwy o waith costus i leihau y gwlybaniaeth sylweddol yn ystod tywydd eithafol. Mae'r dŵr glaw yn pydru rhaffau y 6 chloch ac yn gwlychu'r waliau a'r llawr. Bydd angen caniatad yr esgobaeth hefyd i symud ymlaen i drwsio drws y clochdy yn y dyfodol agos am ei fod dros 200 oed ac wedi ei restru yn gradd 2*. Mae drws dros dro ar y clochdy ers haf 2023.

Coeden Nadolig

Mae coeden Nadolig St Tegai yn rhodd



flynyddol gan Gastell Penrhyn ac unwaith eto eleni daeth Gethin Crump, y Prif Arddwr, a'i dîm o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i osod y goeden wrth ymyl yr allor. Tipyn o gamp! Rydym yn hynod ddiolchgar iddynt am eu caredigrwydd a'u cymwynas parod.

Ysgol Llandygai yn dathlu'r Nadolig

Bydd disgyblion Ysgol Llandygai yn cynnal eu dathliadau Nadolig yn yr ysgol eleni ar Ragfyr 5^{ed} pan fydd dau gyfle i weld y perfformiadau. Pleser pur i'r rhieni ac i lywodraethwyr ysgol yr eglwys yw gweld a chlywed ymdrech a hapusrwydd ein pobl ifanc!

YSGOL LLANDYGAI

Ymweliad Frân Wen i flwyddyn 5 a 6

Diwedd mis Tachwedd, daeth Elis ac Erin o gwmni Frân Wen atom. Cafodd y plant brofiad o chwarae gemau ar gyfer magu hyder yn y bore, wedyn yn y prynhawn roedd rhaid i bob grŵp greu cymeriad dychmygol yn ymwneud â'r ardal. Mi fydd dau weithdy arall yn y flwyddyn newydd, gyda'r bwriad o greu prosiect ar y cyd rhwng ysgolion Bangor ar gyfer gorymdaith Dydd Gŵyl Dewi 2025.

Dosbarthiadau Enfys a Gwawr

Braf oedd gweld pawb yn ôl yn dilyn gwyliau'r hanner tymor gyda phawb yn barod i fwynhau gweithgareddau am stori 'Supertaten'. Mae'r Pys Drwg wedi bod yn dianc weithiau o rewgell y gegin, ond braf oedd dweud un dydd Mawrth

bod digon o bys ar ôl gan Anti Carol i'w cael efo cinio! Mae'r gwaith ar adeiladu trapiau wedi cychwyn! Tybed ddaw Supertaten i'n helpu yn fuan?

Bu Dosbarth Enfys yn creu pabiau coch gyda gwllân ar fore Llun Tachwedd 11eg ac aros yn dawel yn y Dosbarth am 11:00yb. Cafodd Ddosbarth Gwawr profiad arbennig yr un amser yn ymuno gyda gweddill yr Ysgol o flaen giatiau'r Eglwys mewn gwasanaeth arbennig.

Diwrnod Plant Mewn Angen

Cawsom ddiwrnod gwerth chweil eleni yn codi arian ar gyfer diwrnod Plant Mewn Angen.

Braf oedd croesawu Y PUDSEY GO IAWN ac Aled Hughes i'r Ysgol wrth iddo gwblhau ei her Plant Mewn Angen 2024. Mae Aled, sydd yn gyflwynydd ar BBC Radio

Cymru wedi llwyddo i gerdded 135 milltir mewn 7 diwrnod ar hyd Taith Pererin Gogledd Cymru! Diolch mawr iddo am fynd o'i ffordd i ymweld â'r Ysgol a'r plant ar hyd ei daith. Roedd y plantos wedi gwirioni.

Casglwyd £382.12 gyda'n gweithgareddau. Diolch i'n Cyngor Ysgol am yr holl waith.

Sul y Cofio

Cawsom wasanaeth arbennig o flaen giatiau yr Eglwys ar fore Llun Tachwedd 11eg am 11yb gyda gweddill disgyblion yr ysgol, aelodau'r Eglwys a thriolion y pentref o flaen giatiau'r Eglwys i wrando ar enwau'r pentrefwyr a gollwyd yn y Rhyfel Mawr a'r Ail Ryfel Byd a chyfle wrth wrando i sylwi ar eu cartrefi wrth sgwâr y pentref. Diolch Ms Williams am gyflwyno'r wybodaeth bwysig yma mor hyfryd i'r plant. Hyfryd oedd cael sgwrs gydag ambell

aelod o'r Eglwys wrth i ni wrando ar glychau arbennig Eglwys Sant Tygai yn canu ar ôl y tawelwch. Diolch i'r clochydd a'i griw.

Wythnos gwrth-fwlio - Sanau o bob lliw!

Bu bob dosbarth yn brysur yn gwneud gwaith yn ystod wythnos gwrth-fwlio 'leni. Cafodd dosbarth Gwawr diwrnod hyfryd wrth i'r plant fynd ati i feddwl am sut i fod yn garedig a gwneud dewisiadau cywir. Siaradon nhw yn wych am beth mae eraill wedi ei wneud yn garedig yn ystod y dydd - agor y drws, helpu, dweud diolch, gofyn os oedden nhw'n iawn, siarad yn dawel a charedig a llawer mwy. Llawer o waith trafod am sut i fod yn garedig a gwyllo fideo am bwysigrwydd meddwl cyn dweud. Diolch plant am siarad mor arbennig heddiw.



Anrheg Nadolig

Mae dal amser i chi brynu copi o'r llyfr am fywyd, gwaith ac anturiaethau Archesgob John Williams: *A New Song. A Life of John Williams of Conwy 1582-1650*. Fel y gwyrddoch mae John Iorc, fel y gelwir yn yr ardal, wedi ei gladdu yn yr eglwys a gwelir ei gofeb ar y wal dde wrth yr allor. Ysgrifennwyd y llyfr gan Vicky Macdonald o Ddeganwy sydd wedi cymryd diddordeb byw yng nghymeriad cymhleth a dadleuol y bachgen bach o Gonwy a gododd i uchelfannau'r eglwys a llys yn nheyrnasiad Iago 1af ond a ddigiodd Siarl 1af. Mae'n stori werth ei darllen, ffrwyth ymchwil helaeth! Os dymunwch gopi o'r llyfr, cysylltwch ag Ann E. Williams annacoed@hotmail.com er mwyn ei sicrhau! Syniad ar gyfer anrheg Nadolig i rhywun efallai? £5 y copi er budd yr eglwys.

Brysiwch wella!

Mae'n fater o gryn bryder fod cymaint o'n

aelodau yn dioddef o anhwylder hir dymor ar hyn o bryd. Mae Geraint Gill, Helen Gill, Eileen Griffiths, Liz Jones, Dr Wendy Jones, Jan Roberts, y Parch Ddr Gareth Lloyd a sawl un arall i gyd o dan ofal meddyg neu ysbyty. Mae ein meddyliau a'n gweddïau gyda hwynt.

Gwasanaethau Nadolig St Tegai 2024

Rhagfyr 22ain Gwasanaeth Naw Llith a Charol dwyieithog traddodiadol yng ngolau cannyll am 5 o'r gloch. Bydd lluniaeth ysgafn nadoligaidd yn Neuadd Talgai ar ôl y gwasanaeth. (gweler "Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn")

Rhagfyr 24ain Noswyl y Nadolig Cymun Bendigaid am 11 o'r gloch yr hwyr. Ni fydd gwasanaeth yn yr Eglwys ar Ddydd Nadolig .

Rhagfyr 29ain 5ed Sul yn y mis Gwasanaeth Unedig yn Eglwys St Cedol Pentir. Dim gwasanaeth yn St Tegai. Gweler y rota ym mhorth pob eglwys ym Mro Ogwen

Apêl Nadolig 2024

A fuasech eto eleni yn ystyried rhoi anrheg Nadolig i Eglwys St Tegai i sicrhau ein dyfodol ariannol? Yn anffodus, mae hel arian i gadw'r eglwys i fynd yn fwyfwy anodd: mae cyfanswm casgliad y Sul wedi lleihau ers y pandemig Covid ac yn parhau i ostwng yn sgil hanneru'r rhif o wasanaethau. (Yn ystod y flwyddyn cynhelir gwasanaethau am 11.00 bob yn ail Sul a 2 wasanaeth byr am 10.30 ar ddau ddydd Mercher).

Derbynir rhoddion at Apêl y Nadolig yn ddiolchgar fel arian parod ym mlwch postio unrhyw swyddog eglwys, mewn siec drwy'r post (yn daladwy i **Llandegai Church**) neu drosglwyddiad banc (Cyfrif yr Eglwys: **30-90-43 00098435**. Os gwelwch yn dda, gadewch i ni wybod os ydych yn gwneud trosglwyddiad banc). Buasai'r Trysorydd yn gwerthfawrogi pe buasech yn cynnwys eich enw, cyfeiriad a chôd post llawn. Mae cyfraniad Cymorth Rhodd yn codi gwerth eich arian o 25%. I dorri i lawr ar ymweliadau banc dylai pob rhodd Nadolig gyrraedd cyn ddiwedd Rhagfyr 2024 os gwelwch yn dda.

- Ann E Williams, Warden y Ficer, Llwyn Coed, 9 Llwyn Bleddyn, Llanllechid, Bangor Gwynedd LL57 3EF 01248600719 annacoed@hotmail.com
- Edmond Douglas Pennant, Warden y Bobl a Thrysorydd, Drws Melyn Lodge, Pentref Llandygai, Bangor, Bangor, Gwynedd LL57 4HU
- Nerys Jones, Ysgrifennydd a Sacristan, 2 Bryn Cottages, Llandygai, Bangor, Gwynedd. LL57 4LD nessie211@btinternet.com

Manylion Cyswilt

Yn ystod salwch y Parch Ddr Gareth Lloyd, gofynnwn i chi gysylltu gydag Archddiacon Bangor, yr Hybarch David Parry sydd wedi cymryd cyfrifoldeb am unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwysi ym Mro Ogwen. davidparry@churchinwales.org.uk



SBARDUNO!!

Mi fuon ni yn hynod lwcus, o gael treialu gwers Gwyddoniaeth newydd sbon gan Awen o gwmni Sbarduno. Roedd y wers yn ymwneud â'r wystrys, a sut maent yn glanhau dŵr yn eu cynefinoedd. Pnawn diddorol a dweud y lleiaf!

CHWILAIR



ENWAU LLEOEDD YN NYFFRYN OGWEN

A	A	W	N	E	W	N	U	A	W	F	H	R	I	E	J	L	C	M	B
V	B	S	H	X	J	U	I	S	V	S	H	E	I	M	G	V	H	M	D
W	H	A	U	Z	M	X	V	A	D	D	N	N	A	P	A	U	Q	U	S
O	F	R	N	I	A	M	C	R	A	P	R	E	P	Y	Q	Z	G	R	H
C	U	N	M	W	N	O	Y	L	L	Y	M	L	L	W	Y	D	R	I	A
A	S	Y	Z	U	T	F	D	X	U	P	W	E	R	H	C	Q	H	F	W
E	H	R	O	Y	E	E	G	E	O	M	H	F	E	P	T	T	O	C	B
B	C	A	U	U	J	P	L	T	M	I	V	H	V	D	C	N	B	H	B
F	R	F	F	O	J	G	V	I	I	R	R	C	X	I	W	M	H	C	H
T	T	A	O	S	K	O	P	W	R	C	M	A	K	E	C	B	C	O	O
R	C	N	X	V	R	Y	H	S	T	M	R	F	N	E	A	F	O	G	Y
J	D	C	Z	H	B	C	W	O	S	C	R	L	A	I	L	X	G	W	N
I	L	X	J	J	M	B	W	T	E	X	M	I	D	X	A	K	D	I	F
U	N	O	I	S	I	E	L	G	U	A	I	G	I	E	R	C	Y	H	P
C	Q	Y	O	I	L	F	E	R	Z	Q	R	Y	O	C	N	T	H	R	D
G	H	C	O	G	L	E	O	F	W	S	L	T	Z	E	E	B	R	T	E
A	D	I	A	Y	W	H	N	Y	R	B	J	N	K	J	P	C	L	L	N
L	R	V	O	G	J	P	W	P	G	S	O	A	W	J	J	Q	U	L	L
F	S	V	T	X	E	U	G	H	S	L	Z	N	E	A	F	X	I	A	W
T	Z	H	K	V	A	G	B	N	K	A	D	S	I	K	O	G	D	H	B

Yn y Chwilair y mis yma MAE ENW DEUDDEG LLE SYDD YN YMDDANGOS AR FAPIAU ORDANS ARDAL DYFFRYN OGWEN i'w darganfod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilaer dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 27 Rhagfyr. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod

y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobwr. **Cofiwch nid oes angen anfon tudalen y Chwilair o'r Llais i fewn i mi, bydd yr atebion ar ddarn o bapur neu gerdyn yn iawn.**

Nifer fawr ohonoch wedi methu **Fiona** enw cyntaf **Cadwaladar Owen**.

Dyma atebion Chwilair Tachwedd:

Anwen Thomas; Dilwyn Pritchard; Fiona Cadwaladr Owen; Gareth Oliver; Glasnant Davies; Gwenda Davies; Joe Hughes; Marred Glynn Jones; Mary Edwards; Merfyn Morgan; Rhiannon Efans; Theta Owen.

Dyma enwau'r rhai a gafodd hyd i'r

atebion cywir: Elizabeth Buckley, Tregarth; Huw Williams, Erw Las; Eirwen Owen, Erw Las; Olive Williams, Maes y Garnedd; Judith Hughes, Llangoed; Emrys Griffiths, Rhosgadfasn; Rosemary Williams, Tregarth; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Nia Wyn Bagnall, Llandygai; Doris Shaw, Bethesda.

Enillydd Tachwedd oedd:- Emrys Griffiths, 5 Llwyn, Rhosgadfan, Caernarfon. LL54 7HN



Y Goeden Afalau

Y Rhufeiniaid fu'n gyfrifol am ddod ag afalau i Brydain y Brythoniaid yn y ganrif gyntaf Oed Crist, gyda'r milwyr yn plannu eu dincod (cerrig; hadau) ble bynnag roeddynt yn sefydlu eu caerau. Felly y daeth yr afal yn rhan o fywyd y Cymry cynnar fel ffrwyth hynod boblogaidd.

Drwy'r canrifoedd datblygwyd amrywiaeth ryfeddol o goed afalau er mwyn sicrhau ffrwyth a fyddai at ddant pawb, yn cadw'n dda o'u storio, yn hwylus i ddibenion coginio ac yn addas i wneud seidr da. Amcangyfrifir bod tua 7,500 o wahanol fathau o goed afalau drwy'r byd.

Yn naturiol, fel mewn

ieithoedd eraill, cafodd gwahanol fathau o afalau enwau penodol. Dyma i chi rai a restrir yng nghyfrol ddi-ddorol D. Moelwyn Williams, Geiriadur y Gwerinwr:

Afal Beradwy, Afal Gwraig y Tŷ ac Afal y Llaeth – mawr, gwyrdd, caled ar gyfer coginio. Afal Illtud – aeddfed yn yr hydref.

Afal Brith Ffrainc (calville rouge) – coch gydag arlliw o felyn.

Afal yr Iarll – aeddfed ym Medi. Afal Elisabeth ac Afal Gwledd y Forwyn – yn gynnar yn yr haf. Afal Awst (St James's), Afal Awst Gwyn (pomeroy) ac Afal y Brenin (pomeroyal) – mawr a llawn sudd yn yr haf.

Afal Brith y Gwenyn – hynod felys.

Afal Brithog –sur Afal Pêr, Afal Pêr Mai (permain) ac Afal Paradwys – melys iawn.

Afal Coch y Rhwd ac Afal Croen yr Hwch – gwyrdd-frown gweddol gochlyd (russet).

Afal Anna – arlliw o wrid ar wyrdd.

Afal y Cawr ac Afal y Frenhines – melynwyrd gydag arlliw o goch neu felyngoch (monstrous rennet)

Afal Hen wŷr –hyfryd, meddal.

Afal Helyg – chwerw-felys.

Dyma ragor o enwau gan D. Moelwyn Williams: Afal Arthur, Afal y Bastai, Afal Calon Galed, Afal Bewpyr, Afal Pig y Golomen, Afal Cadw, Afal y Berwyn, Afal Brith y Dyffryn, Afal Calon Galed, Afal Can y Gaef, Afal Ni Cheidw, Afal Coesfain, Afal Dewi, Afal Ewias, Afal Gwasgwyn, Afal yr Haul, Afal Mair.

Cofnodwyd dros 40 o goed afalau cynhenid Gymreig, gan gynnwys coeden afalau Enlli a ailddarganfuwyd yn 2000. Mae nifer ohonynt ar goll, yn yr ystyr eu bod yn hen goed sydd wedi hen ddiflannu o'r tir neu wedi eu hanwybyddu a heb eu hailddarganfod hyd yma. Cawn hanes rhai ohonynt y tro nesaf.

Wyddech chi..?

- fod delysg, sef gwymon bwytdwy, yn rhan o ddeiet pobl y glannau yng ngogledd Cymru ers talwm. Wrth gwrs, mae lawr, sef gwymon bwytdwy o fath arall, yn dal i gael ei ddefnyddio yn ne Cymru i wneud bara lawr.
- fod adar y to yn medru troi'r ffyrnig ar adegau. Gan fod cystadleuaeth am lefydd nythu, maen nhw wedi cael eu gweld yn ymosod ar gywion yn nythod gwenoliaid y bondo.
- fod malwod yn eu selio'u hunain yn eu cregyn gyda haenen drwchus o lysnafedd cyn mynd i aeafgysgu. Cyn gwneud hynny maent yn gwagio'u stumogau o bob hylif rhag iddynt rewi a'u lladd.
- fod nyth gwenyn du Cymreig, yn cynnwys haid tua 50,000 mewn nifer, wedi cael ei symud dros dro o daflod Plas yn Rhiw ym Mhen Llŷn tra bod ail-doi'r adeilad. Aethpwyd â'r nyth ddeng milltir i ffwrdd cyn ei dychwelyd a'i hail-osod yn y daflod ar ôl cwblhau'r gwaith adnewyddu. Trefnwyd bod bylchau o dan rai o'r llechi to newydd (llechi Chwarel y Penrhyn) fel bod y gwenyn yn medru mynd a dod fel o'r blaen.




Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Rhowch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.

Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen Plaid Cymru



Tregarth a Mynydd Llandygai • cynghorydd.BecaRobert@gwynedd.llyw.cymru • 07436 927237
Gerlan • cynghorydd.EinirWynWilliams@gwynedd.llyw.cymru • 07747 690456
Canol Bethesda • cynghorydd.RheinalltPuw@gwynedd.llyw.cymru • 07789 742092
Arlechwedd • cynghorydd.DafyddMeurig@gwynedd.llyw.cymru • 07765 400140
Rachub • cynghorydd.PaulRowlinson@gwynedd.llyw.cymru • 07949 034967

ARBENIGWR MEWN LLORIAU COED CALED





A.G.L.

Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117
Symudol: 07835487909



Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)

Angharad Williams, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)

Gwenda Davies, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

Llongyfarchiadau

Anfonwn ein llongyfarchiadau at Gwen Owen, Ffordd Tanrhiw, Tregarth am ennill gwobr arbennig iawn sef Arwr Trefnu Priodasau yng Ngogledd Cymru. Mae Gwen wedi bod yn gweithio am rai blynyddoedd yng Ngwesty Fictoria, Llanberis, ac yn trefnu nifer fawr o briodasau yn y Gwesty. Gwobr haeddianol iawn i chi Gwen a phob dymuniad da gyda'r gwaith trefnu i'r dyfodol.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad fel ardal i Glenys a Derek Robert's a'r teulu, Pen Braich. Bu farw brawd Glenys, sef Vernon Jones, gynt o Fethesda, yng nghartref Cerrig yr Afon, Felinheli ym Mis Hydref yn 75 mlwydd oed.

Daeth y newyddion trist ar Dachwedd 12, am un fu'n byw am flynyddoedd yn Nhregarth, sef Dyfrig Morris Williams, yn Ysbyty Gwynedd, o Hafan Cefni, Llangefni, yn 94 oed. Bu Dyfrig gyda busnes adeiladu tai yn Nhregarth a Dyffryn Ogwen, a'i gwmni ef adeiladodd Stad Tal y Cae, yn y pentref. Symudodd i fyw ym Mhorthaethwy yn ddiweddarach. Roedd yn briod â'r diweddar Sadie, ac yn dad i Ian a Jonathan, yn dad yng nghyfraith i Nest a Catrin ac yn daid i Cai, Macsen, Moi a Medi. Bu'r angladd yn Amlogfa Bangor, ar Ragfyr 6. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu.

Daeth y newyddion trist am farwolaeth Gareth Owen, 5 Lôn Ogwen, ac yntau'n 57 oed, ar Dachwedd 13. Rydym yn anfon pob cydymdeimlad gyda'i briod Elizabeth, ei dad Richard a'i ddiweddar fam, Brenda. Bu ei angladd yn Amlogfa Bangor ar Ragfyr 4.

Merched y Wawr, Cangen Tregarth

Ar Ragfyr 2 bu aelodau'r gangen yn dathlu'r Nadolig gyda gwledd yng Nghlwb Rygbi Bethesda. Diolch i Wayne a Susan am baratoi ar ein cyfer eto leni. Hen edrych mlaen am y dathliad.

Cofiwch i gyd nad oes 'na gyfarfod yn Mis Ionawr ond ar Chwefror 3, Nos Lun, am 7.30 byddwn yn cyfarfod yn Festri Capel Shiloh Newydd pan fyddwn yn croesawu yr awdures Mared Lewis i sgwrsio am ei gwaith fel nofelydd.

Awduron yn ein plith

Llongyfarchiadau i Gwenno Gwilym, Bwthyn Cororion, ar gyhoeddi ei nofel gyntaf yn ddiweddar. Mae V + Fo yn trafod y berthynas gymhleth rhwng dau gymeriad sy'n rhieni i ddau o blant, wrth i fywyd yn ei holl ogoniant blêr yrru'r ddau tuag at ganfyddiadau mawr. Yn gwithio'r nofel Gymraeg i dir newydd

Capel Shiloh Newydd

Gwasanaethau yn Shiloh am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol.

Rhagfyr 15 – Gwasanaeth Teulu y Nadolig
Rhagfyr 22 – Dr Huw Tegid Roberts, Llangefni

Rhagfyr 25 – Noswyl y Nadolig, gwasanaeth Cymun- Dr Ian Morris.

Rhagfyr 29 – Gwasanath i'w drefnu.

Ionawr 5 – Arwel Williams, Caernarfon

Ionawr 12 – Dr Ian Morris

Ionawr 19 – Olaf Davies, Llandegfan

Ionawr 26 – Dr Ian Morris

Drws Agored

Cofiwch fod y drws ar agor bob bore Gwener, rhwng 10 a 12 o'r gloch. Digon o gwmni, paned, sgwrs a chynhesrwydd. Mae croeso i bawb.

Pleser ydi cyhoeddi inni fel criw anfon siec am £100 at Aled Huws, BBC Bangor fu'n cerdded Llwybr y Pererinion o Dreffynnon i Aberdaron. Bydd holl gyfraniadau a gasglodd Aled yn mynd tuag at gronfa Plant mewn Angen. Bu'r daith, a gymerodd saith diwrnod i'w cwblhau yn llwyddiant ysgubol gyda'r cyfraniadau yn cyrraedd £15,750. Llongyfarchiadau i Aled a'i gydgerddwyr am eu hymdrech arwrol.

Croesawu Llyr

Mor braf oedd cael croesawu un o fechgyn y pentre, un gafodd ei addysg yn Ysgol Gynradd Tregarth ac Ysgol Dyffryn Ogwen, yn ôl i Dregarth wedi iddo adael yr ardal ddeunaw mlynedd yn ôl. Aeth rhieni Llyr, Martin a Sian Temple Morris a'r bechgyn Llyr a Gwydion i fyw i Canada yn 2006.



Roedd yr hogia y aelodau selog a gweithgar yn Ysgol Sul Shiloh a thrist oedd colli eu cwmni pan aethant i ffwrdd. Erbyn hyn mae Llyr yn gweithio i Wasanaeth Tân Canada ac yn byw yn Burns Lake, British Columbia, yn hyfforddi dynion tân ar gyfer gwynebu tannau y fforestydd enfawr yn Canada. Roedd yn fraint cyfarfod â Gwydion y llynedd pan ddychwelodd yntau i Dyffryn Ogwen a galw yn Shiloh am sgwrs. Mae'n siwr fod Llyr wedi cael ei sbwylio yn lan gan Nain Erw Las, sef Eirwen Owen a Nain Pentraeth, yn ogystal â theulu Maes Caradog, lle annwyl yng ngolwg Llyr a Gwydion.



Perfformiad hudol a gafwyd yn y capel yn ddiweddar gan Gôr Ysgol Glanaethwy

gydag arddull ddwyieithog sy'n cydio o'r cychwyn cyntaf ac yn pendilio o'r digri i'r dwys, mae'n cyhoeddi dyfodiad awdur newydd a gwefreiddiol i'r sîn lenyddol yng Nghymru. Tyst i hynny oedd llenwi Neuadd Ogwen i'r eithaf ar noson lansio'r nofel yn niwedd Tachwedd. Mae Gwenno yn wreiddiol o Dyffryn Conwy ond yn byw yn Nyffryn

Ogwen ers blynyddoedd lawer gyda'i phartner, Joe, a'u plant, Pip ac Indi.

Llongyfarchiadau hefyd i Gwenno Roberts, Fferm Dob, sydd wedi ennill dwy wobwr arbennig yn ystod Mis Tachwedd. Gwenno enillodd Gadair Eisteddfod Ysgol Tryfan ac ennill medal yr ieuencid yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen eleni. Ardderchog Gwenno!

YSGOL TREGARTH

Ffarwelio

Yn dilyn 14 mlynedd yn Ysgol Tregarth, mae Miss Leah Roberts yn ein gadael. Dymuniadau gorau i chwi yn eich swydd newydd a diolch am eich gwaith yn yr ysgol.

Croeso

Croeso cynnes i Miss Sioned Evans-Hughes atom i'r ysgol. Rydym yn gobeithio y bydd yn hapus iawn yn ein plith.

Diolch

Diolch yn fawr iawn i Jones and Whitehead am ddod mewn yn ystod gwyliau hanner tymor i osod y byrddau gwrthsain yn y neuadd. Mae lefel y sŵn llawer gwell ers eu gosod.

Gweithdy Morwellt

Daeth Meinir Lloyd Jones o gwmi Lafan i ymweld â dosbarth Y Garn yn ystod yr hanner tymor yma. Cawsom gyflwyniad a gweithdy oedd yn edrych ar fygythiadau sy'n effeithio'r morwellt yn ein hardal ni. Cafodd y plant gyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol yn ystod y bore gan ymchwilio, labelu a didoli gwybodaeth er mwyn dysgu mwy am y pwnc. Diolch yn fawr, Meinir!

PC Andy

Cafodd ddisgyblion bl 3, 4, 5 a 6 sesiwn gyda PC Andy yn ddiweddar i drafod diogelwch ar y we. Daeth PC Andy i gynnal sesiwn ynglŷn â seibr-fwlio a sut i ymddwyn yn saff ac yn briodol ar y we. Diolch PC Andy!



Diwrnod blasu Blwyddyn 5 yn Ysgol Dyffryn Ogwen

Yn ddiweddar, cafodd blwyddyn 5 gyfle i fynychu Ysgol Dyffryn Ogwen am ddiwrnod blasu bendigedig. Yn ystod y diwrnod, cafodd y plant gyfle i wneud gweithgareddau hwyllog 'samba' gyda 'Codi'r to' ac i brofi gwersi Cymraeg ac Ymarfer Corff yn yr ysgol. Ac yn amlwg, roedd pawb wedi mwynhau'r cinio blasus! Diolch yn fawr i Ysgol Dyffryn Ogwen am drefnu bore gwyh i'r disgyblion.



Eisteddfod Dyffryn Ogwen

Diolch i'r holl blant fu'n cystadlu yn yr eisteddfod yn ddiweddar. Cafodd y parti llefaru'r ail wobwr a diolch i Miss Tracy Griffith am hyfforddi'r plant. Bu Mabli Jones hefyd yn cystadlu'n unigol (llefaru blwyddyn 5 a 6). Cafodd y parti canu'r ail wobwr a diolch i Mrs Jane Parry am eu hyfforddi. Diolch i chi gyd am gynrychioli'r ysgol, mae pawb yn falch iawn ohonoch a daliwch ati.

Diwrnod Plant Mewn Angen

Ar ddiwrnod Plant Mewn Angen eleni, bu'r Cyngor Ysgol yn cynnal prynhawn cyffrous o gemau carnifal. Bu'r Cyngor yn brysur yn trefnu'r prynhawn wrth gynllunio'r gemau a rheolau, creu baneri a dylunio posterï ar gyfer y digwyddiad. Roedd yn brynhawn

llwyddiannus iawn wrth i'r Cyngor lwyddo i gasglu £250 er budd yr elusen! Diolch yn fawr i'r Cyngor Ysgol am eu ymroddiad a'u brwdfrydedd wrth drefnu'r prynhawn. Rydym yn hynod falch o waith caled y Cyngor Ysgol ac yn edrych ymlaen at fwy o ddigwyddiadau arbennig fel hyn yn y dyfodol.



Noson ffilm

Mwynhaodd disgyblion yr Ysgol noson ffilm llawn hwyl, gan ddewis rhwng ffilmiau 'Wonka', 'Inside Out 2', 'Harold and the purple crayon' neu ffilmiau byr Julia Donaldson. Gyda phopcorn a diodydd wrth law, roedd pawb wedi mwynhau cwmni ffrindiau wrth wyllo'r ffilmiau ac roedd y noson yn lwyddiant mawr.



Y Ddawns Flodau

Cafodd criw o ferched lwcus iawn y cyfle i berfformio'r ddawns flodau yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen eleni fel rhan o seremoni'r cadeirio. Hoffem ddiolch o galon i Mrs Caryl Evans a Miss Ildid Humphreys am hyfforddi'r merched a diolch i'r rhieni am baratoi'r gwisgoedd. Cafodd bob un fodd i fyw ac wedi llwyr fwynhau y profiad.

Bethesda

Mary Jones, maryeds@hotmail.co.uk
(07443 047642)

Joe Hughes, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas,
Bethesda (601902)

Ymddeoliad

Dymunwn ymddeoliad hapus i Helen, Rhos y Nant, wedi blynyddoedd o wasanaethu fel nyrs yn Ysbyty Gwynedd.

Ysbyty

Dymunwn wellhad buan i Alwenna Puw, Cefn y Bryn, wedi cyfnod yn yr ysbyty. Cofion hefyd at y cyfeillion a fu'n yr ysbyty yn ddiweddar, sef Mrs. Deila Davies, Tan y Gaer a Mr. Gwyn Williams, Carneddi.

Cyfarchion y Tymor

Dymuna Helen Roberts, 27 Ffordd Ffrydlas, Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i aelodau'r teulu, cyfeillion a chymdogion, gan na fydd yn anfon cardiau eleni.

Yr un yw dymuniad Mrs. Blodwen Cavanagh, Maes y Garnedd, gan na fydd hithau yn anfon cardiau eleni. Mae'n anfon cyfarchion y tymor, gyda'i chofion gorau at bawb o'i theulu a'i chydabod.

Taid a Nain

Llongyfarchiadau i Carl a Gillian Walker, Glan Ogwen, ar yr achlysur hapus o ddod yn daid a nain am y tro cyntaf, pan anwyd Lwca Wyn Owen i Becky a Tom yn y Gerlan ar 16 Tachwedd. Llongyfarchion hefyd i Mrs. Beryl Bryant, Glasinfryn, ar ddod yn hen nain am y tro cyntaf.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at Darren a Paul, Carneddi, a Julie a'r teulu, Ffordd Bangor yn eu profedigaeth o golli nain a hen nain annwyl yn Deiniolen, sef y ddiweddar Mrs. Margaret Owen. Bu farw Emyr Williams, 17 Ffordd Ffrydlas, yng nghartref nyrsio Bryn Seiont Newydd. Caernarfon. Estynnwn ein cydymdeimlad â'i chwaer, Margaret Williams, Nottingham, yn ei cholled.

Penblwydd Arbennig

Ar ddydd Iau, 28 Tachwedd, dathlodd Mrs. Vera Morgan, Maes y Garnedd, ei phenblwydd yn 90 oed. Llongyfarchiadau a phenblwydd hapus iawn i chi Vera.

Profedigaethau

Margaret Veronica Jones
Yn Ysbyty Gwynedd, ar 10 Hydref, bu farw Margaret Veronica Jones, Pen y Graig yn 74 mlwydd oed. Mam annwyl a hoffus i Jonathan a Sharon, a nain garedig i Lauren a Toby. Bu'r angladd ddydd Llun, 4 Tachwedd yn Amlogfa Bangor. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd yn eich profedigaeth o golli mam a nain annwyl.

Rhiannon Hughes

Ar 1af Tachwedd, wedi cyfnod hir yn Ysbyty Eryri, Caernarfon, bu farw Rhiannon Hughes o Ffordd Stesion, yn 78 oed. Priod annwyl Richard, mam a mam yng nghyfraith i Karen ac Ian, Kevin a Fiona, a Nerys. Roedd hefyd yn nain a hen nain hoffus a charedig. Cynhaliwyd yr angladd yn Amlogfa Bangor ar ddydd Mawrth, 19 Tachwedd, gyda'r Parchedig Sara Roberts yn gwasanaethu. Cydymdeimlwn â'r teulu oll yn eu profedigaeth fawr o golli priod, mam a nain annwyl.

Sylvia Ann Evans

Yn sydyn, yn Ysbyty Broad Green, Lerpwl, bu farw Sylvia Ann Evans, 22 Adwy'r Nant, yn 58 oed. Cymar Barry a mam annwyl Matthew a Sara a nain i Deni, Ollie, Benjamin a Cassie. Roedd yn llys fam i Rachel, Barry, Dan a Spike, ac yn ferch i Shirley a'r diweddar William.

Roedd hefyd yn chwaer annwyl i Julie a Sandy, mam yng nghyfraith i Kelly, Paul a Bar, a modryb garedig i Scott a Joe. Bu'r anladd yn Amlogfa Bangor ar ddydd Iau, 14 Tachwedd. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch i gyd yn eich colled a'ch hiraeth.

Cydymdeimlad - Braichmelyn

Rydym yn cydymdeimlo hefo Sara, Osian a'r plant yn eu profedigaeth o golli taid a hen daid yn Ffrainc.

Cyfarchion y tymor

Ni fydd Eirwen a Dilwyn Owen, Erw Las, yn anfon cardiau Nadolig eleni. Maent yn awyddus i ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb o'r teulu, eu cymdogion a'u ffrindiau yn yr ardal. Byddant yn gyrru rhodd i Llais Ogwan i ddiolch am y gymwynas hon.

Damwain

Adferiad buan iawn i Marion Sullivan, Rhos Mostyn, ar ôl iddi dreulio cyfnod yn yr ysbyty wedi damwain gartref. Da yw deall ei bod gartref ac yn gwella. Hoffai Marion ddiolch o galon i bawb sydd wedi galw i'w gweld, am y cardiau, blodau a galwadau ffôn yn dilyn ei chodwm. Mae hi'n gobeithio bod yn ôl ar ei thraed yn fuan i'ch gweld i gyd.

Diolch

Dymuna Mr Elwyn Evans a'r teulu, 14 Allt Pen y Bryn, ddiolch o galon am bob caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt ar golli Mrs Edna Evans, ei briod annwyl ers 62 mlynedd, ym mis Mehefin. Diolch yn arbennig i'r canlynol am eu gofal clên a'u hystyriaeth trylwyr: Canolfan Feddygol Bethesda, Gofal Plas Garnedd, Plas Ogwen, Stephen Jones Trefnwr Angladdau, a Trystan Lewis Gweinydd Angladdau.

Symud tŷ

Pob dymuniad da i Lois, Mathew ac Ania sydd wedi symud tŷ, ond nid rhy bell o fewn Erw Las. Croeso i Sean Carson i'w hen gartref hwy a phob hwyl i Robin, Gabi, Alaw a Maia sydd wedi symud i Dregarth.

Clwb Cant Eglwys Glanogwen

Ennilydd mis Hydref

1af Eirwen Owen

2il Rhian Jones

Ennilydd mis Tachwedd

1af Kerry Artell

2il Myra Ball

Gareth Williams

TREFNYDD ANGLADDAU

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda



600763 neu 07708 008051
GWASANAETH DYDD A NOS

BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant gan Natasha



Proffesiynol, diogel
a chyfrinachol

LLEDDFU POEN

Cefn, cyhyrau, esgyrn,
cymalau, a thensiwn cur pen

Eli Lichtenstein 07743373895 | info@ogwenphysical.co.uk | ogwenphysical.co.uk
Bethesda RFC Dol Dafydd, Bethesda, Bangor LL57 3NE

JOHN ROBERTS

Paentiwr
Papurwr
Teilsiw

Symudol:
07747 628650
Ffôn: 01248 600995



YR EGLWYS UNEDIG

Oedfaon

Diolch yn fawr i'r canlynol am gynnal oedfaon i ni yn ystod y mis a aeth heibio: ein Gweinidog, Y Parchedig Nerys Griffiths, Mrs Minnie Lewis, a'r Parchedig Robert Capon. Yn sicr, cawsom fendith o glywed eu cenadwri.

Y Gymdeithas

Er gwaethaf y tywydd tamp, a'r niwl trwchus ym mhen isaf y Dyffryn, cafodd aelodau'r Gymdeithas noson o bleser pur yng nghwmni'r Parchedig Huw Pritchard, Llangefni – tad ein Gweinidog, y Parchedig Nerys Griffiths. Soniodd yn gyntaf am ei ardal enedigol, sef Bodffordd, ac am y cymeriadau lu a chwaraeodd ran bwysig yn ei fagwraeth. Cawsom ein hatgoffa o ffordd o fyw syml a hamddenol sydd wedi hen ddiplannu erbyn hyn. Aeth ymlaen i'n cyflwyno i rai o'r bobl lliwgar y daeth ar eu traws yn ystod ei yrfa, gan grybwyll ambell i dro trwstan. Mae gan Mr Pritchard y ddawn i ddal sylw ei gynulleidfa o ddechrau'r sgwrs hyd yr atalnod olaf – llifai'r hanesion fel afon. Mae'n adnabod ei gyd-ddyn yn arbennig o dda, ac yn medru gweld yr ochr ddoniol i bron bob sefyllfa. Braff oedd cael cwmni Lois a Gwenllian, ei ddwy wyres, a ddaeth atom o Gaernarfon gyda'u mam. Mae'n hyfryd meddwl y byddant yn cofio'r hanesion i gyd, ac yn eu hail-adrodd, am flynyddoedd i ddod. Cyn ei throi hi am adref, cafodd pawb gyfle i ddiolch i Mr Pritchard dros banded wedi'i pharatoi gan Anwen a Carys. Diolch i'r ddwy am eu cymorth parod bob amser.

Dathlu'r Nadolig fydd testun ein cyfarfod

nesaf ar Ragfyr 12, pryd y bydd Minnie, Beryl a Heulwen yn gyfrifol am y banded a'r mins peis. Diolchwn iddynt ymlaen llaw. Barbara Jones (Ysgrifennydd)

Cofion

Yn ôl ein harfer, anfown ein cofion cywiraf at yr aelodau hynny sydd yn gaeth i'w cartrefi am ba bynnag reswm ar hyn o bryd. Rydym yn meddwl yn arbennig am Mrs Alwenna Puw, Arllechwedd, sydd wedi bod drwy'r drin yn go arw yn ystod yr wythnosau diwethaf yma. Da yw deall iddi gael dod adref o'r ysbyty, a'i bod yn teimlo ychydig yn well bellach.

Pen-blwydd arbennig

Llongyfarchiadau gwresog iawn i Mrs Vera Morgan ar ddatlu ei phen-blwydd yn 90 oed. Gobeithio i chwi fwynhau'r dathlu, a dymunwn bob bendith ac iechyd i chwi i'r dyfodol. Ymlaen i'r degawd nesaf rŵan, Vera!

Digwyddiadau

- Nos Sadwrn, Rhagfyr 21, am 6.p.m., cyflwynir perfformiad o'r 'Meseia', gan Handel, gan Gorau Unedig Clwyd, o dan arweiniad Trystan Lewis. Tocynnau ar gael am £12.00.

Cyhoeddiadau

Rhagfyr 22: Y Parchedig RO Jones (10)
Rhagfyr 25: Gwasanaeth Cymun (9.30)
Rhagfyr 29: I'w drefnu (10)
Ionawr 5: Y Gweinidog (10) [Cymun]
Ionawr 12: Gwasaneth Plygain (6)
Ionawr 19: Y Parchedig Iwan Llywelyn Jones (5)
Ionawr 25: Y Gweinidog (10)



1969

M.HUGHES A'I FAB

CONTRACTWYR TOI

Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn,
Bethesda ☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
mhughesandson@hotmail.com

Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

BYSUS D. P. OWENS RHIWLAS

01248 361044
07771 634195

Bysus o 25 i 57 sedd ar gael ar gyfer eich holl anghenion teithio - triapiau, priodasau, partion ac ati.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL
A DIBYNADWY SEFYDLWYD 1997
PERCHENNOG: DERFEL OWENS

L. STURRS A'I FEIBION

SEFYDLWYD YN 1965

ADEILADWYR

HEN IARD STESION,
FFORDD Y STESION, BETHESDA

FFÔN: 600953
isturrs@googlemail.com

Cyngor Cymuned Bethesda

Cynhaliwyd cyfarfod cyffredinol o'r Cyngor ar nos Fercher, 29ain o Dachwedd yn rhithiol dros Zoom.

Cyngor Gwynedd - Ymgynghoriad ymestyn y cyfnod ar gyfer codi ffioedd parcio

Derbyniwyd gohebiaeth gan Gyngor Gwynedd ynglŷn ag ymgynghoriad ynghylch ymestyn y cyfnod ar gyfer codi ffioedd parcio ar feysydd parcio arhosiad byr. Penderfynwyd fod y Cyngor yn gwrthwynebu'r newidiadau i'r amseroedd parcio, oherwydd mae'r cyfnod byr rhwng 9 a 10 yn bwysig iawn fusnesau

bach Bethesda. Gall y newid hwn niweidio busnesau'r Stryd Fawr. Cytunwyd bydd y Clerc yn ysgrifennu at yr adran.

Cynnig i Gymeradwyo Adroddiad Comisiwn Cymunedau Cymraeg

Derbyniwyd gohebiaeth gan Gyngor Cymuned Llanystumdwy ynglŷn â chymeradwyo adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg. Mae'r Cyngor Cymuned yn credu bod dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol yn gam allweddol tuag at gyfnerthu cymunedau Cymraeg, a geilw ar Lywodraeth Cymru a Chyngor

Gwynedd i ddynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol yn unol ag argymhelliad y Comisiwn.

Galw ar Lywodraeth San Steffan – Dydd Gŵyl Dewi yn Ŵyl y Banc

Drwy fwletin misol Un Llais Cymru, sylwodd y cyngor fod Cadeirydd Cyngor Gwynedd, y Cyng. Beca Roberts wedi gwneud cynnig i Gyngor Gwynedd alw ar Lywodraeth San Steffan i drosglwyddo'r hawl i Lywodraeth Cymru yng Nghaerdydd i ddynodi Mawrth y 1af o bob blwyddyn yn wyliau cenedlaethol swyddogol yng Nghymru gan gydnabod

Dewi Sant yn Nawddsant Cymru. Fe wneir hyn gyda Seintiau'r Alban a Gogledd Iwerddon. Hefyd mae Cyngor Gwynedd yn gofyn am gefnogaeth Llywodraeth Cymru gyda hyn (mae wedi datgan ei chefnogaeth o'r blaen) yn ogystal â holl gynghorau Sir, Tref a Bro yng Nghymru. Penderfynwyd y Cyngor Cymuned ei bod yn cefnogi'r alwad hon.

Ni fydd cyfarfod yn cael ei gynnal yn ystod mis Rhagfyr oni bai am faterion brys yn codi yn y cyfamser. Mi fydd y cyfarfod cyffredinol nesaf yn cael ei gynnal ar yr 30 Ionawr 2025 am 19.00 yng Nghanolfan Cefnfaes.

YSGOL DYFFRYN OGWEN

Eisteddfod Dyffryn Ogwen

Rydym yn hynod falch o ymdrech arbennig ein disgyblion yn y cystadlaethau yn yr Eisteddfod eleni. Diolch yn ogystal i griw blwyddyn 12 a'n prif ddisgyblion am gynnal yr Orsedd i wobrwyo prif gystadlaethau'r Eisteddfod.

Longyfarchiadau i'r canlynol am eu llwyddiant.

Llwyddiant Llên

Medal yr Ifanc – 2il i Eban Pritchard, blwyddyn 12



Eban Pritchard

CA4

1af – Erin Carson
2il – Elsa Hofstead White
Cydradd 3ydd – Gwenno Beech a Gwydion Davies

Blwyddyn 7-9

1af - Gruff Beech
2il - Celyn Rhys
Cydradd 3ydd: Arawn Gwilym a Harry Roberts

Llwyddiant Cerddorol

1af Unawd Lleisiol – Gwenno Beech
2il Unawd offerynnau – Maxine Guest
Gwobr y perfformiwr uwchradd mwyaf addawol o Ysgol Dyffryn Ogwen – Maxine Guest



Erin Carson

Gŵyl y Gelli

Cafodd criw o flwyddyn 7 gyfle bendedig ym Mhrifysgol Bangor ar daith y sgriblwy, Gŵyl y Gelli. Roeddent yn ffodus i gael gweithdy efo'r amryddawn Siôn Tomos Owen ar greu cymeriad gan feddwl sut mae personoliaeth a chyfrinachau yn effeithio ar bryd a gwedd unigolyn. Cawsant gyfle i rannu eu syniadau wrth i Siôn greu gwawdlun o'u cymeriadau. Arweiniwyd yr ail sesiwn gan Leila Navabi sy'n ysgrifennwr a digrifwr talentog ac wedi gweithio ar raglenni fel *Bad Education* a *Never Mind The Buzzcocks*. Yn y gweithdy

hwn, gofynnwyd i'r dysgwyr rannu beth oedd yn gwneud iddynt chwethin, cyn dangos iddynt sut i ysgrifennu sgetsh o ansawdd teledu o'r dechrau i'r diwedd. Yn y prynhawn tywysodd Yr Athro Angharad Price y dysgwyr drwy'r brifysgol gan ddangos lleoliadau pwysig yr adeilad. Cafodd y plant gyfle i weld rhai o drysorau mwyaf gwerthfawr Cymru gan gynnwys Beibl William Morgan a llyfr nodiadau Hedd Wyn. Braint oedd clywed canmoliaeth y plant am y diwrnod cyfan a hoffai Adran y Gymraeg ddiolch fod y fath daith yn bodoli er mwyn ysbrydoli ysgrifennwyr dawnus y dyffryn.



Disgyblion blwyddyn 7 yn mwynhau Taith y Sgriblwy

Glasi Fryn a Chaerhun

Mair Griffiths, (352966)
mairpenybryn@gmail.com

Cylch Glasi Fryn

Cyfarfu'r Cylch ar 13 Tachwedd yn y Ganolfan am 2 y.p. Croesawyd aelodaeth dda i'r cyfarfod ynghyd a'r siaradwr gwâdd John Cole. Mae John wedi bod yn ymddiriedolwr ac aelod gwerthfawr o Ganolfan Treftadaeth Menai ym Mhorthaethwy ers blynnyddoedd. Mae'r Ganolfan yn gartref i gasgliad o greiriau morwrol am y pontydd sydd yn croesi'r Fenai a hanes tyfiant poblogaeth o gylch Porthaethwy sydd yn cael ei gydnabod yn ryngwladol.

Dywedodd John am y galw yn y Canol Oesoedd i gael ffordd diogel i groesi anifeiliaid a grawn drwy fod yn ddibynol ar y llanw yn y manau mwyaf bâs yn y Fenai. Yna yn yr Oes Diwydiannol roedd angen i Aelodau Seneddol o Llundain groesi Môr yr Iwerydd i Ddulyn wedi'r Ddeddf Uno yn 1707. Yna cawsom hanes adeiladu'r ffyrdd o Gaer a'r Amwythig

i Fangor, yna Thomas Telford yn cynllunio ac adeiladu Pont Menai yn yr 1800au cynnar ac yn dilyn gyda Phont Britannia a oedd yr un mor drawiadol gan Stephenson yn 1850 au. Roedd y datblygiadau cyffrous yma yn galluogi twristiaid i ymweld â Gogledd Cymru.

Rhoddwyd y diolchiadau am gyflwyniad ardderchog o hanes ein treftadaeth gan Glenys Morgan. Darparwyd y te gan Ann Williams a Beryl Bryant a Mair Griffiths enillodd y raffl.

Ar 11 Rhagfyr byddwn yn mynd i Pant Du ym Mhenygroes ar gyfer ein parti Nadolig yna ar 8 Ionawr 2025, croesawn Dafydd Jones, gwenynwr o Llanddaniel i roi sgwrs ar gadw gwenyn a chynhyrchu mêl, a bydd peth o'i fêl blasus ar werth! Croeso cynnes i aelodau hen a newydd atom i'r Ganolfan am 2 y.p.

Diolch

Dymuna Mrs Eva Thomas, Dolhelyg, Llanfairpwll, (gynt o Waen Wen) Stephen a Nerys a'r teulu ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad drwy alwad

ffôn, cardiau ac ymweliadau wedi iddynt gollu Arfon. Diolch yn fawr iawn hefyd am yr arian tuag at Gronfa Hospis Dewi Sant a gyfranwyd er cof amdano.

Bingo Bach

Cynhaliwyd noson Bingo lwyddianus iawn yn y Ganolfan tuag at Tŷ Gobaith ar 29 Tachwedd. Bydd yr elw o £290 yn mynd tuag at estyniad ystafell ddiwedd oes yn Nhŷ Gobaith. Diolch i bawb am bob cyfraniad tuag at y noson boed drwy wobrau tuag at y Bingo, Tombola a chyfraniadau ariannol. Mae ci mawr (tegan meddal!) wedi bod yn eistedd yn y Ganolfan ers mis bellach yn disgwyl am rhywun ei enwi, enw'r ci oedd Pedro ac fe aeth i gartref Carol, Caerhun. Ni fydd Bingo mis nesaf na mis Ionawr nes diwedd Chwefror 2025, pryd bydd elw'r noson yn mynd at Ward Padarn (Strôc) Ysbyty Eryri. Cafwyd cyfle am sgwrs a pharti bach wedi'r Bingo i orffen y noson a'r rhan fwyaf yn mynd adref yn hapus efo'u gwobrwyon! Nadolig Llawen i bawb!

Gweithdy TikTok

Mae hi'n oes rhyngweithio cymdeithasol a dyna'n union gafodd criw blwyddyn 9 y cyfle i ymddiddori ynddo'n ddiweddar. Cydweithiodd Adran y Gymraeg gyda chriw o MSparc a Golwg 360 i greu gweithdy rhoi sglein ar sgiliau TikTok a chael cyfle i hysbysebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Llond neuadd o chwerthin ac ambell fideo difyr iawn. Edrychwn ymlaen i ddefnyddio'r sgiliau newydd yn y gwersi Cymraeg yn fuan.

An Inspector Calls

Trefnwyd taith i Lerpwl gan yr adran Saesneg ar gyfer blynyddoedd 10 ac 11 i wyluo 'An Inspector Calls' yn Theatr yr Empire. Diolch i'r staff am roi eu hamser ac i'r disgyblion am ymddwyn mor wych.

Plant Mewn Angen

Diwrnod ardderchog wrth i'r ysgol gyfan fynd ati i gasglu arian i Plant Mewn Angen mis diwethaf. Llwyth o chwerthin, gwledda, gweithgareddau a chyfle i rai o griw gweithgar y cyngor ysgol ymweld â Pudsey yn BBC Radio Cymru.



Casglwyd swm anrhydeddus iawn o £531. Diolch o galon i'r holl ddisgyblion, staff a rhieni am roi mor hael.

Adran Addysg Gorfforol

Cafwyd gêm dda o bêl-droed gan ferched blwyddyn 7 ac 8. Curo 2-1 yn erbyn tîm cryf o Ysgol Tryfan. Pawb wedi rhoi 110% drwy gydol y gêm. Medi Tipton wedi cael ei dewis yn chwaraewraig y gêm gan Ysgol Tryfan a Tia wedi ei dewis am ei hymroddiad cyson wrth ymosod a chefnogi'r amddiffyn.

Diwrnod Pontio Blwyddyn 5

Diwrnod pontio gwych i flwyddyn 5 y dalgylch heddiw gyda'r disgyblion yn derbyn gwersi Cymraeg, lechyd a Lles a gweithdy Cerdd gan Codi'r To.

Apêl Nwyddau Cynnes

Os oes gennych unrhyw nwyddau cynnes nad ydych yn eu defnyddio mwyach, neu nwyddau ymolchi, byddwn yn ddiolchgar iawn o'u derbyn ar gyfer helpu teuluoedd yn ystod y gaeaf e.e. blanced, côt gynnes, duvet a

Adran Gerdd

Diolch o galon i 'The Zawose Queens' a ddaeth draw i roi gweithdy taro i ddisgyblion blwyddyn 8 a 9. Roedd y dosbarthiadau yn llawn egni a brwdfrydedd a'r disgyblion wedi mwynhau yn arw. Dysgu am ddiwylliant, gwella'u sgiliau cerddorol, bod yn greadigol ac ymarfer eu Ffrangeg! Werth eu gweld a'u clywed!

gobennydd, 'dressing gown' a nwyddau ymolchi

Dewch a'r nwyddau i'r ysgol neu cysylltwch gyda – gutosiongriffiths@gwynedd.llyw.cymru

Diolch ymlaen llaw am eich caredigrwydd.



Disgyblion blwyddyn 5 yn ffreutur yr ysgol

Cyfarchion

Cofion cynnes a phob dymuniad da i Mr Arfon Evans, 39 Cae Garnedd (gynt o Penhower Uchaf) sydd erbyn hyn wedi ymgartrefu yng Nghartref Gofal Cerrig yr Afon, Y Felinheli.

Geni

Llongyfarchiadau i Mrs Beryl Bryant, 12 Bro Infryn ar ddod yn hen nain. Ganwyd Luca i Becky ei wyres a Tom o Gerlan, ar 16 Tachwedd. Llongyfarchiadau hefyd i Gillian, merch Beryl, a'i gŵr Carl Walker o Lanogwen, ar ddod yn nain a taid. Llawenydd mawr i'r teulu i gyd!

Llwyddiant

Llongyfarchiadau mawr i Isaac Briscoe, 2 Bryn Pwll, Waen Wen ar ennill pedair medal yn ddiweddar mewn Gala Nofio John Sharp a gynhaliwyd yn Llandudno. Cymerodd ran mewn pedair ras, cafodd fedal arian yn y dull rydd 50m, arian yn y dull pili pala 50m, dull cefn 100m arian ac efydd yn dull cefn 100m. 'Roedd Isaac yn nofio efo Clwb Nofio Caernarfon a dyma y tro cyntaf iddo gystadlu. Da iawn ti Isaac gobeithio y cawn glywed am fwy o dy lwyddianau yn y dyfodol!



SIOP OGWEN

yn cynnig gwasanaeth

CLIC A CHASGLU

Llawer o Nwyddau Newydd gan Grefftwyr Newydd wedi cyrraedd y siop

Hefyd

Llu o gardiau cyfarch ar gyfer pob achlysur. Cysylltwch â'r siop ar y ffôn

07394 905881

neu E-bost siop@ogwen.org i drafod beth sydd ar gael ac i wneud trefniadau casglu a thalu

CEFNOGWCH WASANAETH LLEOL



Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

CANOLFAN CEFNFAES

Gyrfa Chwist

Ionawr 14 a 28

am 7 o'r gloch.

Croeso i bawb



CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN

Nos Lun, 13 Ionawr
7.00 Shan Robinson

Merched Dylanwadol
Dyffryn Ogwen

Lleoliad y Cyfarfodydd:

Wyneb yn wyneb: Yn festri Capel
Jerusalem, Bethesda. Cofrestrwch efo
garethllwyd197@btinternet.com

Rhithiol tros Zoom: Cofrestrwch efo
bethan@ogwen.org erbyn 12 o'r gloch
dydd Llun y ddarlith ar yr hwyrfa.

FFI AM Y CWRS:

£10.00 i rai mewn gwaith
£5.00 i bensiynwyr a'r di-waith
Plant ysgol am ddim
Cost darlithoedd unigol = £2.00

Y ffioedd i'w talu i gyfrif
"Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen"
drwy:

BACS: 40-16-02 41386212, neu
Gydag arian parod ar y noson.

**Nadolig Llawn a
Blwyddyn Newydd Dda
i holl drigolion Dyffryn
Ogwen, a diolch i chi
am eich cefnogaeth
barhaus.**



CAFFI COLLED BETHESDA

Dydd Llun 1af & 3ydd bod mis
Canolfan Gorffwysfan

Ionawr 13: Panad a sgwrs
Ion 27: Blwyddyn Newydd Sineaid

Cysylltwch â'r Caplan Bro:
Parchg. Sara Roberts:
Sararoberts@churchinwales.org.uk
Ffôn symudol: 07967652981
FB: CAFFI COLLED

Eglwys Glanogwen

Noswyl
y
Nadolig



Gwasanaeth
Wrth y Preseb
24/12/24

Croeso i blant,
mawr a bach
4pm



Naw Llith a Charol Traddodiadol yng ngolau kannwyll

St Tegai, Llandygai

**Nos Sul, Rhagfyr 22ain
am 5 y.h.**

Gwin poeth a lluniaeth ysgafn i ddilyn

Noswyl y Nadolig

St Tegai, Llandygai

**Nos Fawrth, Rhagfyr 24ain
am 11 y.h.**



Annwyl Olygydd

Tybed oes rhai o'ch darllenwyr yn fyfyrwyr neu'n adnabod myfyrwyr hoffai ddysgu mwy am y sector Dysgu Cymraeg?

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg eisiau denu mwy o bobl ifanc i weithio fel tiwtoriaid ac yn cynnig ysgoloriaeth iddyn nhw fynychu cwrs 'Tiwtoriaid Yfory' yn ystod haf 2025.

Bydd y cwrs yn cael ei gynnal rhwng 7 – 18 Gorffennaf yng Nghaerdydd a bydd yn cynnwys gweithdai gyda thiwtoriaid profiadol, a chyfleoedd i arsylwi dosbarthiadau Cwrs Haf Dysgu Cymraeg Caerdydd.

Mae tiwtora hefyd wrth gwrs yn opsiwn gwych i fyfyrwyr sy'n chwilio am ychydig o arian pan fo'r esgid yn gwasgu.

Gall myfyrwyr sy'n astudio unrhyw bwnn yng Nghymru neu tu hwnt wneud cais – 'dyn ni'n chwilio am bobl all ysbrydoli eraill i ddysgu a siarad Cymraeg, gyda sgiliau cadarn yn y Gymraeg eu hunain.

Mae na fwy o wybodaeth ar wefan y Ganolfan - dysgucymraeg.cymru.

Diolch yn fawr a chofion gorau,
Helen Prosser

Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.



Nyth y Gân



CIGFRAIN YSGOLION DUON

Y gaeaf a ddaeth eto,
Mae'r oerni'n gafael nawr,
A phrin yw bwyd i'r cigfrain
Yn nhir y meini mawr.

Mewn lle fel hwn y ganwyd
Rhai caled fel y rhain,
Nid ar y tir glaswelltog
Ac arno lwyni drain.

Cânt hofran yno'n gyson
Yn ll'gadu'r llethrau llwm
Cyn mynd ar silffoedd creigiog
I orffwys uwch y cwm.



YN Y MYNYDD

O ddydd i ddydd mae'n newid
O fore hyd yr hwyr,
A'i hen gadernid hynod
O'r golwg aiff yn llwyr.

Daw niwl y gaeaf drosto
A throi y lle yn llwyd,
Ni welir yno wedyn
'R un graig na mymryn bwyd.

Daw haul â gwedd wahanol
I'r uchelderau hyn
Pan welwn ni fod bywyd
Yn deffro'r tir a'r llyn.

Mae'r dynfa at y mynydd
Yn gwneud i rai fel ni
Ddiolch am deimlad hyfryd
Yr awel deg ei si.

CYMRU

O dir yr uchelderau y gwelwn
Ein Gwalia ar ei gorau;
Ein siroedd sy'n drysorau,
A'r rhain roed i'r hen a'r iau.

Dafydd Morris

Calendr Llais Ogwan 2025

Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod Calendr Llais Ogwan 2025 wedi ei gyhoeddi ac ar gael i'w brynu yn y siopau a gan eich gwerthwyr lleol. Mae'r Calendr yn cynnwys lluniau lliw hardd o olygfeydd o amgylch ardal Dyffryn Ogwen gan gyfranwyr lleol unwaith eto eleni.

Hoffem ddiolch eto eleni am gymorth gan Glwb Camera Dyffryn Ogwen i ddenu a dewis y lluniau ar gyfer y Calendr a diolchwn hefyd i Wasg Carreg Gwalch am eu gwaith wrth gysodi ac argraffu'r Calendr.

Bydd y Calendr yn cael ei werthu trwy'r siopau yn bennaf, ond, os oes rhywun yn fodlon gwerthu cyflenwad, mae croeso iddynt gysylltu gyda Mr Walter Williams gan mai ef sy'n gyfrifol am ddsbarthu'r Calendr.

Gallwch gysylltu gyda Walter ar 01248 601167 neu trwy e-bost: waltermenai@yahoo.co.uk.

Bydd y Calendr ar werth am £4.50 eto eleni yn y siopau canlynol:

- Siop Ogwen, Bethesda
- Londis, Bethesda


- Barbwr Ogwen, Stryd Fawr, Bethesda
- Caffi Seren, Bethesda
- Post Rachub
- Siop yn Llys Y Gwynt
- Siop Na Nog, Caernarfon
- Awen Menai, Porthaethwy

Gellir danfon y Calendr trwy'r post am bris ychwanegol.

Ymholiadau archebion at Now Jones:

01248 600184

post@llaisogwan.com



Yr Athro Iolo Wyn Williams 1934-2024

(Gol - Ymddangosodd y deyrnged hon yn BARN Tachwedd 2024. Wedi ei chyhoeddi yma gyda chaniatâd y golygydd a'r awdur)

Addysgwr a dreuliodd ei yrfa yn Abertawe a Bangor gan hyrwyddo'r Gymraeg ar bob cyfle, a gŵr a gyfunai ddiddordebau gwyddonol a llenyddol.

Un o Garrog, ger Corwen, oedd Iolo Wyn Williams, yn fab i'r Prifardd W.D. Williams a'i wraig Anna. Roedd yn frawd mawr i Iwan Bryn (a ddaeth yn brifathro Ysgol y Berwyn y Bala) a Nia Powys. Symudodd y teulu maes o law i Harlech ac yna i'r Bermo lle'r oedd W.D. yn ysgolfeistr.

Trwy fy ewyrth Gwylfa, oedd yn gigydd yn y dref, y clywais gyntaf am Iolo.

Soniai Gwylfa am fynych drafferthion y bachgen fel yr un a anfonid, fel y brawd mawr, i'r siop i brynu cig i'r teulu. Wedi disgwyl yn hir am ei dro gan mai ef oedd y person lleiaf wrth y cowntar, wedi iddo gyrraedd adref byddai'n ofynnol iddo ddychwelyd yn ebrwydd oherwydd na fyddai'r offrwm o'r safon a ddisgwylid gan y teulu!

Deuthum i adnabod Iolo ac Iwan yn well yng ngwersyll yr Urdd yn Llangrannog, lle'r oedd Iolo yn 'swog'. Mae'n amlwg i'r Urdd gael dylanwad arhosol arno. Gweithgareddau'r mudiad a daniodd ei ddiddordeb byw yn yr amgylchfyd – bu'n gerddwr brwd gydol ei oes – a'i ysbrydoli i feithrin diwylliant ei wlad, ac yntau wedi'i drwytho yn y 'pethe' yn ifanc iawn. Trwy'r Urdd hefyd y daeth i adnabod Nesta, merch ffarm o Gwm Nedd, a ddeuai maes o law yn wraig iddo.

Dyfnhaodd ein cyfeillgarwch yn y coleg yn Aberystwyth lle'r oedd Iolo'n astudio Cemeg, pwnc y cafodd radd PhD ynddo yn 1958 am draethawd ar ffurfiant paru o iönau mewn toddiant dyfrllyd. Roedd yn un o hoelion wyth Cymdeithas y Geltaidd. Roedd hefyd yn barddoni, ac enillodd gadair yr Eisteddfod Ryng-golegol am gerdd ar y mesurau caeth. Fel ei dad a'i frawd bu'n fuddugol hefyd yn ddiweddarach yng nghystadleuaeth yr englyn yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Wedi cyfnod yn dysgu mewn ysgol ger Manceinion, bu'n darlithio yn Adran Addysg Prifysgol Abertawe cyn cael ei benodi'n Athro Addysg ym Mangor yn 1984, lle bu hyd ei ymddeoliad yn 1997. Cafodd yrfa academaidd ddisglair ym Mangor ond hefyd yn rhyngwladol. Tra oedd yn Abertawe roedd wedi treulio dwy flynedd yn sefydlu Adran



Addysg ym Mhrifysgol India'r Gorllewin yn Trinidad a Tobago, ac roedd yn ymwelydd cyson â phrifysgolion yn Ewrop ac yng ngwledydd Affrica.

Am chwe mis wedi dod i Fangor bu'n byw ar aelwyd Irene a minnau yn Neuadd John Morris-Jones cyn ymsefydlu gyda Nesta a'r bechgyn, Rhys a Guto, yn Nhregarth. Dyma'r amser, wrth sgwrsio'n aml tan yr oriau mân, y deuthum i wir werthfawrogi mawredd Iolo – y gŵr deallus, eang ei wybodaeth, y cyfaill hoffus, caredig, yr ymgomiwr difyr, tawel ei ffordd gyda'r hiwmor sych. Er na fyddai'n un i wastraffu geiriau, roedd yn feistr ar y dweud brathog pan oedd hynny'n ofynnol.

Parhaodd y diddordeb mewn gwyddoniaeth gydol ei oes. Ef oedd enillydd Medal Wyddoniaeth yr Eisteddfod Genedlaethol yn yr Wyddgrug yn 2007, a bu'n aelod o fwrdd golygyddol Y Gwyddonydd drwy gydol cyfnod cyhoeddi'r cylchgrawn rhwng 1963 ac 1996. Yn wahanol i rai, ni fu ganddo unrhyw amheuaeth erioed ynglŷn â gallu'r Gymraeg i fynegi holl fawredd a chymhlethdod gwyddoniaeth. Costrelodd ei gred mewn addysg gyflawn yn y Gymraeg drwy olygu a chyfrannu at y gyfrol *Gorau Arf: Hanes sefydlu Ysgolion Cymraeg 1939–2000*.

Gŵr o ddoniau amlochrog ydoedd, yn wyddonydd wrth ei ddysg, yn addysgwr yn ei yrfa academaidd, ond hefyd yn dalp o ddiwylliant ardaloedd bro ei febyd yn Sir Feirionnydd. Deuai ei ddawn i drin geiriau i'r amlwg mewn sawl ffordd, boed fel Prif Of Cylch yr Efail ym Mangor, fel englynwr neu fel awdur cyfrol ddifyr am hanes glwb golff y ddinas.

John Llywelyn Williams

Gair neu ddau John Pritchard

MWY NA GEIRIAU

Am ei gwerth, er gwell neu er gwaeth, fi fydd wedi sgwennu'r golofn hon. Fydd neb sy'n fy nabad yn synnu mai ar y funud olaf y gwneir hynny. Wrth feddwl am rywbeth i'w ddweud mi wnes – dim ond o ran ymyrraeth – ofyn am help. Gofyn nid i'r teulu nac i'r un o'm ffrindiau ond i beiriant. A bod yn fanwl gywir, defnyddio'r cyfrifiadur i ofyn am help Deallusrwydd Artiffisial (AI). Mi glywais lawer amdano'n ddiweddar, ond dyma'r tro cyntaf i mi roi cynnig arno. Wyddwn i ddim sut i gyfarch peiriant! Ddylwn i ddeud 'plŷs' yn gwrtais? Beth bynnag, mi ofynnais am 'erthygl 550 gair ar arddull "Gair neu ddau" gan John Pritchard yn *Llais Ogwan* ar gyfer rhifyn y Nadolig!

O fewn eiliad roedd erthygl ar y sgrin o'm blaen. Roedd hi'n gwneud synnwyr. Roedd ynddi neges addas. Ond doedd hi ddim at fy nant. Mi wnes i egluro - mor annwyl a chwrtais ag y tybiwn oedd yn weddus wrth siarad â pheiriant - y byddai'n dda gen i weld mwy o sôn am yr Efengyl ac am Iesu Grist. Ac o fewn eiliad arall, roedd yr erthygl wedi ei diwygio, neu o bosib wedi ei newid yn llwyr. A bod yn onest, wnes i ddim darllen yr ail yn fanwl er i mi sylwi fod yr Efengyl yn fwy amlwg ynddi!

Chedwais i mohonyn nhw. Doedd gen i ddim bwriad i'w defnyddio. A fydda i ddim yn gofyn am help y peiriant eto, ond yn dal i grafu pen a chwilio am rywbeth i'w rannu â phwy bynnag sy'n ddigon caredig i ddarllen y golofn hon bob mis. Synnwn i ddim na fydd y peiriant yn fuan iawn yn llunio erthyglau difyrach a mwy celfydd na dim a ddaw o'm llaw i. O bosib ei fod eisoes yn gneud hynny! Wnaif fi ddim rhannu â chi'r hyn a greodd Deallusrwydd Artiffisial rhag i chi ddeud mai gwell gennych hwnnw! Ond pa mor ddifyr neu gelfydd bynnag yr hyn a gynhyrchir, mae angen mwy na geiriau arnom wrth ddwyn tystiolaeth i Iesu Grist a'i Efengyl. Mae angen argyhoeddiad a chred a sylweddoliad o'u prydferthwch a'u gwerth. Yn ôl a welwn i, doedd dim o hynny yng ngwaith y peiriant. Ac nid syndod hynny gan na fedr yr un peiriant ymateb mewn ffydd a rhyfeddod i'r newyddion da am y Gair a wnaethpwyd yn gnawd trwy enedigaeth Iesu.

Ond nid peiriant yn unig all fod yn amddifad o'r rhyfeddod. Rhaid i minnau gyfaddef ei bod yn rhwydd iawn sgwennu a siarad am y Ffydd a'r Beibl, ac am y Gwarddwr ei hun, yn oeraidd a marwaidd. Os oes angen mwy na geiriau ar beiriant, mae'r angen yn fwy fyth arnom ni. Nid er mwyn yr un peiriant y ganwyd Crist ond er ein mwyn ni. Nid dros beiriant y bu fyw a marw'r Gwarddwr ond drosom ni. Mae'r Nadolig yn cyhoeddi cariad syfrdanol Duw at fydd tywyll ac at bobl wrthryfelgar: y cariad a barodd iddo anfon ei Fab i ganol y llanast a'r drygion i gyd. Daw cyfle'r Nadolig hwn i ddathlu ei ddyfodiad. Ac mi wnawn ni hynny, gobeithio, o waelod calon ac efo'r llawenydd na all yr un peiriant ei brofi na'i deimlo.

Nadolig Llawn i chi. Ac am ei gwerth, dyma hi: fy erthygl 550 gair.

CHWARAEON

Bowlio efo Bys a Bawd

Cystadlu Brwd

Yn niwedd Mis Tachwedd, pan oedd y tywydd wedi troi'n aeafol a'r lawnt fowlio ar gau, mentrodd saith o fowlwyr mwyaf eiddgar Dyffryn Ogwen i Ganolfan Fowlio dan do Prestatyn i geisio cadw sgiliau'n finio ar gyfer y tymor nesaf. Arweiniwyd y selogion gan neb llai na Maldwyn Pritchard, capten poblogaidd tîm yr henoed. Chwaraeodd tri, sef y Bonheddwr Alan Griffith, y Cynghorydd George Owen, a Mr Denzil Jones fel unigolion a daeth Denzil i'r brig ar ôl cystadlu brwd ond boneddigaidd.



Alan Griffith (Pops) oedd yn chwarae yn y triawd efo George Owen a Denzil Jones



Y Cynghorydd George Owen o Benrhosgarnedd - bowliwr a golffiwr a gŵr bonheddig



Denzil Jones o Landygái oedd yn cwblhau'r triawd ym Mhrestatyn



John Baston, Talybont, bowliwr a dyfarnwr peldroed heb ei ail



Gohebydd Bowlio Llais Ogwan oedd partner 'distaw' Mr Baston

CYSTADLU FFYRNIG

Nid oedd pethau mor foneddigaidd ymhlith y pedwarawd a chwaraeai yn y lôn nesa at y tri. Penderfynodd y pedwar drefnu twrnamaint i barau gyda Maldwyn Pritchard, y capten, a Heddwyn Morris, ei ddirprwy, yn ffurfio un pâr a Mr John Baston o Dalybont yn gwneud y pâr arall gyda'i bartner, sef gohebydd bowlio Llais Ogwan.

Pan welodd Mr Baston ganlyniad tynnu'r enwau allan o het, bu bron iddo weiddi "ffics" ond ataliodd ei bartner ef rhag dod ag anfri ar enw da'r gêm. Er hynny, effeithiodd y 'draw amheus' ar gêm y gwron o Dalybont, oherwydd gwyddai y byddai'r capten a'i ddirprwy yn defnyddio pob owns o dactegau teg ac annheg i geisio curo eu gwrthwynebwyr. Yn wir, aeth Mr Baston ati i feirniadu safon chwarae ei bartner gan geisio'i gael i fagu brwdfrydedd a meddwl mwy am fuddugoliaeth yn lle breuddwydio am baned o de wedi'r gêm.

Yn anffodus, methiant fu ymdrechion y dyfarnwr pêl-droed enwog o Dalybont ac fe gafodd ef a'i bartner truenus eu trechu yn hawdd gan y cyn uwch-swyddog yng Nghyngor Arfon a'r postmon cyson ei dafliaidau. Chwarae

teg i'r capten, ymatalodd rhag cerdded yn dalog a'i frest yn chwyddedig wrth gerdded oddi ar faes y frwydr. Y cyfan ddywedodd o oedd, "mae'r hufen yn codi i frig y botel bob tro".

Llongyfarchiadau iddyn nhw ac i Mr Denzil Jones am fore difyr o gystadlu. Dymuna pawb weld y postmon yn trefnu ymweliad arall â'r fangre yn gynnar yn y flwyddyn newydd.



Maldwyn, y capten hynod ac unigryw o Hen Dyrpeg gyda Heddwyn Morris, y llythyr gludydd rhadlon o Lwyn Bleddyn a lwyddodd i drechu Mr Baston a'r gohebydd bowlio anlwcus ym Mhrestatyn.

O'r maes rygbi

Llongyfarchiadau i Dylan Alford, Rhiwlas, ar chwarae ei gêm gyntaf i Rygbi Gogledd Cymru ddiwedd Tachwedd.

Trechwyd Tîm Abertawe ar Barc Eirias, Bae Colwyn a chwaraeodd Dylan am yr 80 munud.

Bu Dylan yn dysgu ei grefft chwarae rygbi gyda thimau ieuencid (iau a minis) Clwb Rygbi Bethesda a bellach mae ganddo gytundeb gyda'r Scarlets a Rygbi Gogledd Cymru.

Llongyfarchiadau cynnes iawn iti, Dylan, a phob dymuniad da i'r dyfodol.




Owen's Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn meysydd awyr Cludiant Preifat a Bws Mini

01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

CROESAIR



AR DRAWS

- 1 Mewn unrhyw gytundeb rhaid cadw at hwn os am lwyddo (4)
- 4 Un o ynysoedd mwyaf gogledd yr Eidal (4)
- 8 O2, - - - - i'n cynnal a'n cadw'n fyw (1,3)
- 9 Ar Sul oer af yn ôl yn flêr a di-drefn (8)
- 10 Y cyfarchiad tymhorol mwyaf cyffredin (7,5)
- 11 Tusw persawrus ar ganol bwrdd y wledd hwyrol (5)
- 13 " - - - - - ganwyd i chwi heddiw Geidwad yn ninas Dafydd" (5)
- 15 Cymeriad creulonaf stori'r Nadolig o bosib' (1,6,5)
- 18 Lladd y babanod oedd yr un fwyaf ysgeler gan 15 Ar Draws (8)
- 19 Tafarn gymunedol ym mhentref y gwleidydd enwog D.L.I.G (1,3)
- 20 "Sêr - - - - yn gwenu, Clychau llon yn canu ..." (1,3)
- 21 Nid yw'r gog yn aderyn y Nadolig i ni. Aeth tua'r cyfeiriad yma ers tro (2,2)

I LAWR

- 2 Os daw Santa im cartref, er yn ddryslyd daw ag elw a budd (7)
- 3 Roedd y rhain yn estyn dros y môr ar Nadolig 1985 mewn cân elusennol (5)
- 4 Y pedwerydd, yn y gwanwyn (5)
- 5 Merch y fynwes bur a glân (7)
- 6 Â'r ffi ar gyfer gwella'r anifail i'r milfeddyg yma (6)
- 7 Bod yn gynnar ar faes eisteddfod 2023 (4)
- 12 Cyfarfodydd hwyliog y gweithle i ddathlu'r Nadolig (7)
- 13 Poblogaeth sy'n trigo mewn gwlad arbennig (6)
- 14 Hoff ddanteithion melys y tymor (7)
- 15 Edrychwch, gwelwch i ni yn y gogledd (4)
- 16 Sêr yn tywynnu ar y ferch (5)
- 17 Yn ofalus yr eir i ddringo'r mynyddoedd Cymreig (5)

Atebion erbyn 3ydd Ionawr 2025 **fan bellaf** (ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach) i '**Croesair Rhagfyr**', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

Diolch am y dymuniadau da gan nifer ohonoch, a Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll.



ATEBION CROESAIR TACHWEDD 2024

AR DRAWS 1 Agos, 4 Deallus, 8 Amryliw, 9 Ficer, 10 Athro, 11 Epidemig, 13 Melys, Moes, 17 Gwersylla, 19 Stiwl, 21 Encôr, 22 Un Y Cant, 23 Plannu, 24 Carw

I LAWR 2 Gorthrwm, 3 Seld, 4 Dewi Pws A Lleucu, 5 Anfodlon, 6 Un Cam, 7 Arogl, 8 Afal, 12 Glasfryn, 14 Set Fawr, 15 Sgrech, 16 Rwyd, 18 Encil, 20 Ffyr

Y gwallau hyn a ymddangosodd y tro yma: 'addas' yn lle 'afal' (8 I Lawr) gan ddau, ac 'araf' gan un arall; a chafwyd 'silff' yn lle 'seld' (3 I Lawr).

Atebion hollol gywir gan y canlynol, da iawn chi: John Ffrancon Griffith, Abergele; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Myrddin Williams, Capel Uchaf Clynnog; Barbara Jones, Talybont; Rosemary Williams, Dulcie Roberts, Elizabeth Buckley, Tregarth; Dilys Parry, Jean Vaughan Jones, Dafydd Roberts, Rhiwlas; Wendy Eccles, Llanllechid; Rita Bullock, Doris Shaw, Bethesda; Stella Dafis, Rachub; Iona Williams, Llanddulas; Emrys Griffiths, Rhosgadfan

Mae'r wobr a'r clod am bos cywir y mis yma yn mynd i Dafydd Roberts, Bwthyn Cefn Braich, Rhiwlas, Gwynedd LL57 4HB.

MODURDY FFRYDLAS



PERCHNOGION

A.L.L. ac R.W. WILLIAMS
Stryd Fawr, Bethesda
PROFION M.O.T.

GWASANAETH ATGYWEIRIO
TEIARS A BATRIS
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

Ffôn: 600 723

E-bost: ffrydlas@btconnect.com

Dilynwch Llais
Ogwan ar X
@Llais_Ogwan

